# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Mehefin 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:30-10:00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020 - Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

10:00-10:30 (Tudalennau 1 - 9)

Vaughan Gething AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru

Helen Lentle, Cyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Dylan Hughes, Y Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-17-20** – Papur briffio

SL(5)530 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Cymru) 2020

Senedd Cymru
Welsh Parliament

SL(5)534 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020

SL(5)540 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

SL(5)548 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

SL(5)554 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

10:30–10:35 (Tudalen 10)

**CLA(5)-17-20 – Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)551 – Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:35–10:40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**4.1 SL(5)550 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 11 – 40)

**CLA(5)-17-20 – Papur 2** – Adroddiad

**CLA(5)-17-20 – Papur 3** – Gorchymyn

**CLA(5)-17-20 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-17-20 – Papur 5** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 18 Mai 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**4.2 SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

(Tudalennau 41 - 53)

**CLA(5)-17-20 – Papur 6** – Adroddiad

**CLA(5)-17-20 – Papur 7** – Rheoliadau

**CLA(5)-17-20 – Papur 8** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-17-20 – Papur 9** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Llywydd, 20 Mai 2020

**4.3 SL(5)554 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

(Tudalennau 54 - 70)

**CLA(5)-17-20 – Papur 10** – Adroddiad

**CLA(5)-17-20 – Papur 11** – Rheoliadau

**CLA(5)-17-20 – Papur 12** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-17-20 – Papur 13** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Llywydd, 29 Mai 2020

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10:40-10:45

**5.1 SL(5)549 – Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 71 - 73)

**CLA(5)-17-20 – Papur 14** – Adroddiad

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol

10:45-10:50 (Tudalennau 74 - 81)

**CLA(5)-17-20 – Papur 15** – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 7 Papur(au) i'w nodi

10:50-10:55

### 7.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Lles Cenedlaethau'r Dyfodol - Adroddiadau Statudol

(Tudalennau 82 - 84)

**CLA(5)-17-20 – Papur 16** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 29 Mai 2020

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10:55

## 9 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

10:55-11:00

### 9.1 SL(5)531 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

(Tudalennau 85 - 86)

**CLA(5)-17-20 – Papur 17** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Tân - trafod yr adroddiad drafft

11:00-11:10 (Tudalennau 87 - 89)

**CLA(5)-17-20 – Papur 18** – Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach – trafod yr ohebiaeth â'r Gweinidog

11:10–11:25 (Tudalennau 90 – 93)

**CLA(5)-17-20 – Papur 19** – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 29 Mai 2020

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)

11:25–11:35 (Tudalennau 94 – 96)

**CLA(5)-17-20 – Papur 20** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid

11:35–11:45 (Tudalennau 97 – 100)

**CLA(5)-17-20 – Papur 21** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 15 Mehefin

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
08 Mehefin 2020

## SL(5)551 – Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 (‘Gorchymyn 2018’). Mae Gorchymyn 2018 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â’r gofyniad i gymeradwyo systemau draenio cynaliadwy o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (“Deddf 2010”), a cheisiadau i fabwysiadu systemau draenio cynaliadwy o dan yr Atodlen honno.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn mewnosod darpariaeth ddehongli yn Erthygl 2 o Orchymyn 2018 (dehongli) sy'n nodi'n glir nad yw datblygiadau a ganiateir, sef datblygiadau y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt yn rhinwedd gorchmynion datblygu a gorchmynion datblygu lleol yn unol ag adran 58(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w hystyried fel gwaith sydd wedi cael caniatâd cynllunio at ddibenion yr eithriadau yn Erthyglau 3 i 6 o Orchymyn 2018. Gwneir y diwygiad hwn i gywiro hepgoriad anfwriadol yng Ngorchymyn 2018.

Effaith hyn yw y bydd angen i'r corff cymeradwyo gymeradwyo gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio, sydd hefyd yn ddatblygiad a ganiateir ac sy'n cwmpasu darn o dir o 100 metr sgwâr neu fwy, yn unol â darpariaethau Gorchymyn 2018.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Erthygl 4 o Orchymyn 2018 (eithriadau i'r gofyniad am gymeradwyaeth: nid oes angen caniatâd cynllunio). Mae'n mewnosod paragraff (3) newydd sy'n darparu nad oes angen cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ar gyfer datblygiadau a ganiateir mewn argyfwng o dan Ran 3A, Rhan 12A a Rhan 37 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

**Fe’u gwnaed ar:** 18 Mai 2020

**Fe’u gosodwyd ar:** 19 Mai 2020

**Yn dod i rym ar:** 09 Mehefin 2020

# SL(5)550 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i'r Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (“Gorchymyn 2012”); a
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (“Gorchymyn 2016”).

Mewn llythyr at y Llywydd ar 18 Mai 2020, esboniodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Rebecca Evans, pam fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen y diwygiadau hyn:

> “Mae'r cyfyngiadau ar deithio a’r mesurau cau adeiladau oedd yn angenrheidiol er mwyn arafu COVID-19 wedi atal rhai ceisiadau cynllunio rhag cael eu cyflwyno oherwydd bod dim modd cydymffurfio â’r gweithdrefnau cyn ymgeisio. Bwriad y gorchymyn yw addasu gweithdrefnau cynllunio dros dro ar gyfer y cyfnod sy’n cychwyn ar 19 Mai ac yn gorffen ar 18 Medi (y cyfnod dros dro) er mwyn cael gwared â’r rhwystrau hyn a galluogi ceisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn i gael eu cyflwyno yn dilyn yr addasiadau”.

O ganlyniad, mae’r Gorchymyn hwn yn gosod darpariaethau yng Ngorchymyn 2012 a Gorchymyn 2016 sy'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol rhwng 19 Mai 2020 a 18 Medi 2020.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn gosod erthygl 2G newydd yng Ngorchymyn 2012. Mae erthygl 2G yn addasu Rhan 1A o Orchymyn 2012, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer yr ymgynghoriad sy’n rhaid ei gynnal cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr.

Mae'r erthygl 2G(3) newydd yn disodli'r gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael yn lleol i'w harchwilio, gyda gofyniad i wneud yn siŵr bod y dogfennau ar gael ar wefan, ac ar ffurf copi caled, pe gofynnir amdanynt. O ganlyniad, mae’n rhaid gosod y rhybudd ar ei ffurf addasedig ar neu gerllaw’r tir y mae’r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef, a’i anfon at berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol. Mae’r un ffurf addasedig o’r hysbysiad i’w defnyddio i hysbysu ymgyngoreion cymunedol .

Mae erthygl newydd 2G(4) yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 er mwyn darparu, pe ceir cais am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, na ddylid cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r ddogfen ddiwethaf yn cael ei hanfon.

Mae erthygl newydd 2G(7) yn addasu erthygl 2F o Orchymyn 2012 i'w gwneud yn ofynnol i adroddiad ar ymgynghoriad cyn cyflwyno cais gynnwys cadarnhad bod y gofynion addasedig (sef sicrhau bod gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan ac i ddarparu copïau caled o wybodaeth o'r fath pan ofynnir amdanynt) wedi cael eu cyflawni. Mae’n rhaid cynnwys datganiad yn cadarnhau a ofynnwyd am gopïau caled hefyd.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 16 o Orchymyn 2012 i ymestyn yr amser sydd gan gynghorau cymunedol i ymateb pan gânt eu hysbysu am gais cynllunio, o 14 diwrnod i 21 diwrnod.

Mae erthygl 4 yn datgymhwyso’r gofyniad yng Ngorchymyn 2016 i berson adneuo copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol, wrth wneud y cais yn electronig.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gosodwyd y Gorchymyn ar 18 Mai, a daeth i rym y diwrnod canlynol, 19 Mai. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol 21 diwrnod. Rydym yn nodi’r llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ar 14 Ebrill 2020. Mae’r wybodaeth hon yn nodi:

> Mae gofyn i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn i’r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effaith cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor adeiladau, gan gyfrannu at system gynllunio weithredol. Bydd yn galluogi caniatâd cynllunio i gael ei gyflwyno, sy’n golygu (os yw’n cael caniatâd) y gallai’r sector adeiladu roi’r caniatâd hwnnw ar waith cyn gynted ag y bo’r cyfyngiadau’n cael eu llacio.
>
> Bydd peidio â dod â’r Gorchymyn i rym ar unwaith yn golygu bod mwy a mwy o geisiadau cynllunio sy’n aros i gael eu cyflwyno yn cronni. Gallai hyn gael effaith ar y sector adeiladu a’r economi, mewn cyfnod lle mae’n bwysig gwyrdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau’r effaith economaidd a’r difrod cymdeithasol tymor hir sy’n cael ei achosi. Credir ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod, a bod modd cyfiawnhau hyn yn yr achos hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae paragraff 4.3 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi “oherwydd natur brys y diwygiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn”.  Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod

Memorandwm Esboniadol manwl, a pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae paragraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol (ar dudalen 5) yn nodi fel a ganlyn:

> Mae angen rhoi'r diwygiadau ar waith ar unwaith ar gyfer cyfnod cymharol fyr er mwyn i'r addasiadau i'r gweithdrefnau cynllunio allu lliniaru effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau mewn rhannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiadau yn golygu bod modd i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi ar waith cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu codi.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 514 (Cy. 121)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n mewnosod darpariaethau yn y Gorchmynion hynny sy'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau ar 19 Mai 2020 ac sy'n dod i ben ar 18 Medi 2020.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2G newydd yng Ngorchymyn 2012. Mae erthygl 2G yn addasu Rhan 1A o Orchymyn 2012, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch yr ymgynghoriad y mae rhaid ei gynnal cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mawr.

Mae'r erthygl 2G(3) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 fel bod gofyniad i roi'r dogfennau ar gael ar wefan ac ar ffurf copi caled ar gais wedi ei roi yn lle'r gofyniad i roi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael yn lleol i'w harchwilio. Er mwyn adlewyrchu hynny, darperir ffurf addasedig o'r hysbysiad y mae rhaid ei osod ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef a'i anfon at berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol. Mae'r un ffurf addasedig o'r hysbysiad i'w defnyddio i hysbysu ymgyngoreion cymunedol o dan erthygl 2D o Orchymyn 2012.

Mae'r erthygl 2G(4) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 i ddarparu, os gofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, na chaniateir cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonir y ddogfen olaf.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r erthygl 2G(7) newydd yn addasu erthygl 2F o Orchymyn 2012 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad ar ymgynghoriad cyn-ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion addasedig i roi gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan ac i ddarparu copïau caled o'r wybodaeth honno pan ofynnir amdanynt wedi eu bodloni. Mae datganiad yn cadarnhau pa un a ofynnwyd am gopïau caled ai peidio i'w gynnwys hefyd.

Mae erthygl 3 yn gwneud newidiadau i erthygl 16 o Orchymyn 2012 er mwyn estyn yr amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb pan gânt eu hysbysu am gais cynllunio, o 14 o ddiwrnodau i 21 o ddiwrnodau.

Mae erthygl 4 yn datgymhwyso'r gofyniad yn erthygl 12 o Orchymyn 2016 i berson adneuo copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol pan wneir y cais gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 514 (Cy. 121)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *18 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym* | *19 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62(11), 62R a 333(4B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 62(1) a (2), 71(1), (2)(a) a (2A), a 333(7) o'r Ddeddf honno(**2**) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) (fel y'u cymhwysir yn

(**1**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 62(11) gan adran 17(3) o Ddeddf 2015 (gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") (y cyfeirir ati yn y troednodyn nesaf) sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu mewn perthynas â Chymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru). Mewnosodwyd adran 62R gan adran 25 o Ddeddf 2015. Amnewidiwyd adran 333(4B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(3) o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 59(2) gan adran 1 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi, a chan adran 27 o Ddeddf 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Gweler adran 71(4) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

achos adran 62(1) gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016(**1**)), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mai 2020.

**Ymgynghori cyn ymgeisio: rhoi gwybodaeth ar gael**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 2F mewnosoder—

"**Coronafeirws: addasu'r Rhan hon dros dro**

**2G.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys gyda'r addasiadau a nodir yn yr erthygl hon pan fydd—

(a) pob un o'r hysbysiadau y mae erthyglau 2C(1)(a) a 2D(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd eu rhoi mewn perthynas â chais arfaethedig yn cael eu rhoi ar ôl dechrau cyfnod yr argyfwng, a

(b) o leiaf un o'r hysbysiadau hynny yn cael ei roi cyn diwedd cyfnod yr argyfwng.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr "cyfnod yr argyfwng" yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau gyda 19 Mai 2020, a

(b) sy'n dod i ben gyda 18 Medi 2020.

(3) Mae erthygl 2C(1) yn cael effaith fel pe bai—

(a) yn is-baragraff (b), "rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gael ar wefan" wedi ei roi yn lle "rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (b)—

"ac

---

(**1**) O.S. 2016/54 (Cy. 24).

(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac O.S. 2017/567 (Cy. 136); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) anfon copïau caled o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) at unrhyw berson sy'n gofyn amdanynt, pan ofynnir amdanynt o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-baragraff hwnnw."

(4) Mae erthygl 2C yn cael effaith fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (3)—

"(3A) Os gofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau fel y crybwyllir ym mharagraff (1)(c), ni chaniateir cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr anfonir y ddogfen olaf yn unol â'r paragraff hwnnw."

(5) Mae erthygl 2C(5) yn cael effaith mewn perthynas â phob hysbysiad a roddir gan y ceisydd o dan erthygl 2C(1)(a) fel pe bai'r cyfeiriad at Atodlen 1B yn gyfeiriad at Atodlen 1D.

(6) Mae erthygl 2D(5)(a) yn cael effaith mewn perthynas â phob hysbysiad a roddir gan y ceisydd o dan erthygl 2D(2) fel pe bai'r cyfeiriad at Atodlen 1B yn gyfeiriad at Atodlen 1D.

(7) Mae erthygl 2F(2) yn cael effaith fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (c)—

"(ca) datganiad bod yr wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (b) o erthygl 2C(1) wedi ei rhoi ar gael yn unol â'r is-baragraff hwnnw;

(cb) datganiad yn nodi pa un a ofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau fel y crybwyllir yn is-baragraff (c) o erthygl 2C(1) ac, os felly, datganiad bod y copïau caled wedi eu hanfon yn unol â'r is-baragraff hwnnw;".

(3) Ar ôl Atodlen 1C mewnosoder Atodlen 1D a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cyfnod i gynghorau cymuned wneud sylwadau ar geisiadau**

**3.** Yn erthygl 16 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo cyngor cymuned yn cael ei hysbysu am gais yn ystod cyfnod yr argyfwng,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae paragraffau (1) a (2)(c) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau at 14 o ddiwrnodau yn gyfeiriadau at 21 o ddiwrnodau.

(5) Ym mharagraff (4), mae i "cyfnod yr argyfwng" yr ystyr a roddir gan erthygl 2G(2)."

**Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol**: **gwneud ceisiadau**

**4.** Yn erthygl 12 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**1**), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Nid yw paragraffau (5) a (6) yn gymwys i gais a wneir yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau gyda 19 Mai 2020, a

(b) sy'n dod i ben gyda 18 Medi 2020."

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
15 Mai 2020

(**1**) O.S. 2016/55 (Cy. 25), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN Erthygl 2(3)

## Hysbysiad cyn-ymgeisio ar gyfer cyfnod yr argyfwng

# "ATODLEN 1D Erthygl 2G

## CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO: HYSBYSIAD I'W ROI YN YSTOD CYFNOD YR ARGYFWNG

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 2C a 2D FEL Y'U HADDASWYD GAN ERTHYGL 2G

(i'w gyflwyno i berchnogion a/neu feddianwyr tir cyffiniol ac ymgyngoreion cymunedol; ac i'w arddangos drwy hysbysiad safle ar neu gerllaw lleoliad y datblygiad arfaethedig)

**Diben yr hysbysiad hwn:** mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i wneud sylwadau yn uniongyrchol i'r datblygwr ynglŷn â datblygiad arfaethedig cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol ("ACLl"). Bydd unrhyw gais cynllunio dilynol yn cael ei hysbysebu gan yr ACLl perthnasol; ni fydd unrhyw sylwadau a ddarperir mewn ymateb i'r hysbysiad hwn yn lleihau dim ar eich gallu i gyflwyno sylwadau i'r ACLl ar unrhyw gais cynllunio cysylltiedig. Dylech nodi y gellir gosod unrhyw sylwadau a gyflwynir gennych yn y ffeil gyhoeddus.
Datblygiad arfaethedig yn (a) …………………………………………………..

**Rwyf yn hysbysu bod** (b) ………………………………………………………..

yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i (c): ………………………….

Gallwch weld copïau o'r canlynol:

- y cais arfaethedig;
- y planiau; a
- dogfennau ategol eraill

ar-lein yn (d) ……………………………………………………………….

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at y dogfennau yn electronig gallwch ofyn am gopïau o'r wybodaeth hon drwy anfon e-bost at (e)…………………………… neu drwy ffonio'r ceisydd ar (f)…………………………

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig hwn ysgrifennu at y ceisydd/yr asiant yn (e) ……………………………….. neu (g) ………………………………..
erbyn (h) ………………………………………

Llofnod: ……………………………………….

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| |
|---|
| Dyddiad: ………………………………… |
| Mewnosoder:<br><br>a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig<br>b) enw’r ceisydd<br>c) disgrifiad o’r datblygiad arfaethedig<br>d) cyfeiriad y wefan<br>e) cyfeiriad e-bost y ceisydd/yr asiant<br>f) rhif ffôn y ceisydd/yr asiant<br>g) cyfeiriad y ceisydd<br>h) dyddiad gan ganiatáu cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda’r dyddiad cyflwyno a chyhoeddi |
| |

”

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
18 Mai 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (y “DMPWO”) yn darparu ar gyfer gweithdrefnau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, ymgyngoriadau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, apeliadau, gorchmynion datblygu lleol, tystysgrifau datblygiad neu ddefnydd cyfreithlon, cynnal a chadw cofrestrau o geisiadau cynllunio a materion cysylltiedig.

1.2 Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (y “DNSPWO”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut mae Gweinidogion Cymru yn delio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (“DNS”).

1.3 Mae Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn addasu neu’n datgymhwyso gofynion penodol yn y DMPWO a’r DNSPWO yng nghyswllt y cyfnod sy’n dechrau ar ddyddiad dod i rym y Gorchymyn ac yn dod i ben ar 18 Medi. Mae’r Gorchymyn yn gwneud y canlynol yn benodol.

*Y weithdrefn cyn ymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr*

- Mewn cysylltiad â’r ymgynghoriad cyn ymgeisio (y mae’n rhaid ei gynnal cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol a elwir yn ddatblygiadau mawr), mae’r gofyniad sy’n nodi bod rhaid sicrhau bod copïau o ddogfennau cysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn lleol wedi cael ei ddisodli gan ofyniad sy’n nodi bod rhaid i’r dogfennau hyn fod ar gael ar wefan neu fod copi caled ohonynt yn cael ei ddarparu ar gais.

- Mae newidiadau sy’n adlewyrchu’r hyn a nodir uchod wedi cael eu gwneud i’r hysbysiadau safleoedd a’r llythyrau angenrheidiol i berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol, yn ogystal â hysbysiadau i ymgyngoreion yn y gymuned. Os gwneir cais am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, rhaid peidio â chyflwyno cais cyn pen 14 diwrnod i’r dyddiad yr anfonir y ddogfen ddiwethaf.

- Mae’n rhaid i adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion, sy’n ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan a bod copïau caled o’r wybodaeth hon yn cael eu darparu ar gais, wedi cael eu bodloni. Mae angen cynnwys datganiad sy’n nodi a gafwyd ceisiadau am gopïau caled hefyd.

*Amser i gynghorau cymuned ymateb i hysbysiadau*

- Mae’r amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb i geisiadau cynllunio y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt wedi cael ei ymestyn o 14 diwrnod i 21 diwrnod.

*Cyflwyno copi caled o geisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

- Mae'r gofyniad presennol yn y DNSPWO, sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle bo cais wedi cael ei gyflwyno'n electronig, wedi cael ei ddatgymhwyso.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Gorchymyn i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod cyflwyno gerbron.

2.2 Mae gofyn i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn i'r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effaith cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor adeiladau, gan gyfrannu at system gynllunio weithredol. Bydd yn galluogi caniatâd cynllunio i gael ei gyflwyno, sy'n golygu (os yw'n cael caniatâd) y gallai'r sector adeiladu roi'r caniatâd hwnnw ar waith cyn gynted ag y bo'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

2.3 Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn golygu bod mwy a mwy o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno yn cronni. Gallai hyn gael effaith ar y sector adeiladu a'r economi, yn ogystal â goblygiadau economaidd a chymdeithasol tymor hwy. Credir ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod, a bod modd cyfiawnhau hyn yn yr achos hwn.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Adran 61Z (8) a (9) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am ymgynghoriad, neu yng nghyswllt ymgynghoriad, y mae'n rhaid ei gynnal mewn cysylltiad â cheisiadau am ddatblygiadau a nodir mewn gorchymyn datblygu. (Caiff datblygiad mawr ei nodi at y dibenion hyn yn erthygl 2B(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac fe ddiffinnir datblygiad mawr yn erthygl 2 o'r un gorchymyn.)

3.2 Mae Adran 62(11) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn datblygu yng nghyswllt ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio.

3.3 Mae Adran 62R yn galluogi gorchmynion datblygu i wneud darpariaethau am geisiadau am ganiatâd cynllunio a gyflwynir i Weinidogion Cymru.

3.4 Mae Adran 333(4B) o Ddeddf 1990 yn galluogi darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion, achosion ac ardaloedd gwahanol.

3.5 Mae'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59 (pŵer i wneud gorchmynion datblygu), 62(1) a (2) (darpariaethau ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio), 71(1), (2)(a), (2A) (ymgynghori ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio) a 333(7) (pŵer i amrywio gorchymyn) o Ddeddf 1990, i'r graddau y mae modd eu gweithredu yng nghyswllt Cymru, wedi cael eu trosglwyddo ac maent bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672), erthygl 2 a'r cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

3.6 Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162, a pharagraff 20 o Atodlen 11, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.7 Mae Adran 62(1) wedi cael ei defnyddio gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016.

3.8 Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

*Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio*

4.1 Fel rhan o'r mesurau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb parhaus i COVID-19, cafodd pob adeilad cyhoeddus nad yw'n hanfodol ei gau, ac ni chaniateir teithio'n ddianghenraid. O ganlyniad i hyn, mae'n anodd i ddatblygwyr gydymffurfio ag erthygl 2C(1)(b) y DMPWO.

4.2 Mae'n rhaid cwblhau'r ymgynghoriad cyn ymgeisio cyn gallu cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

4.3 Nod y newidiadau i ddarpariaethau'r weithdrefn cyn ymgeisio, a ddisgrifir yn adran 1 uchod, yw galluogi datblygwyr i sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiadau mawr arfaethedig ar gael yn lleol mewn modd ymarferol tra bo cyfyngiadau'r Coronafeirws yn amharu ar hyn, er mwyn sicrhau bod partïon â buddiant yn cael cyfle i ystyried y cais a rhoi sylwadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er mwyn cynnwys cymaint o bobl â phosib, bydd yr wybodaeth ar gael yn electronig neu ar ffurf copi caled ar gais.

4.4 Bydd cwblhau'r broses cyn ymgeisio hon yn galluogi datblygwyr i gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, gan atal mwy a mwy o geisiadau cynllunio rhag cronni wrth iddynt aros i gael eu hystyried. Os bydd y ceisiadau'n cael eu cymeradwyo, bydd y sector adeiladu yn gallu eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi, gan leihau'r difrod economaidd a chymdeithasol tymor hwy fydd yn cael ei achosi.

*Sylwadau gan gynghorau cymuned cyn gwneud penderfyniad ynghylch ceisiadau*

4.5 Cynghorau cymuned yw'r haen o lywodraeth sydd ar lawr gwlad yng Nghymru. Mae gan gynghorau cymuned ran bwysig i'w chwarae fel y cyswllt lleol â chymunedau, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r broses gynllunio a bod yn rhan ohoni.

4.6 Drwy ymestyn y cyfnod a ganiateir i gyflwyno sylwadau ar geisiadau y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt, y bwriad yw y bydd hyn yn lleddfu'r anawsterau mae cynghorau cymuned yn eu hwynebu o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd o ganlyniad i'r mesurau rheoli a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

*Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

4.1 Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig fel arfer, fodd bynnag, pan wneir cais o'r fath, mae'n ofynnol cyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i COVID-19, mae adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol wedi cau a does dim staff i dderbyn copïau caled o geisiadau mewn swyddfeydd perthnasol, felly, mae'n gallu bod yn anodd dilysu hyn.

4.2 Diben diwygio'r DNSPWO yw datgymhwyso elfen o'r weithdrefn bresennol y mae'n anodd gwirio cydymffurfedd â hi tra bo cyfyngiadau COVID-19 ar waith.

## 5. Ymgynghori

4.3 Oherwydd natur brys y diwygiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn.

4.4 Mae angen rhoi'r diwygiadau ar waith ar unwaith ar gyfer cyfnod cymharol fyr er mwyn i'r addasiadau i'r gweithdrefnau cynllunio allu lliniaru effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau mewn rhannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiadau yn golygu bod modd i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi ar waith cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu codi.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 1. Ymgynghoriad cyn ymgeisio

**Opsiynau**

1.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig

**Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

**Disgrifiad**

1.2. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid o gwbl o dan yr opsiwn hwn. Tra mae adeiladau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac asiantaethau tai, ar gau oherwydd COVID-19, nid yw datblygwyr yn gallu cydymffurfio'n llawn ag erthygl 2C o'r DMPWO cyn cyflwyno cais cynllunio dilys ar gyfer datblygiad mawr.

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

1.3. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

1.4. Fodd bynnag, byddai'n cael effaith ganlyniadol ar gyflawni datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol yn sgil yr oedi fyddai'n anochel oherwydd bod datblygwyr methu cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio'n llawn, wedyn cyflwyno cais dilys ar gyfer datblygiad mawr. Ystyr datblygiad mawr yw datblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o'r canlynol:

a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;
b) datblygiad gwastraff;
c) darparu tai annedd lle mae'r canlynol yn berthnasol—
   i. bydd 10 neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu; neu
   ii. bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sy'n 0.5 hectar neu fwy, ac nid yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o dan is-baragraff (c)(i);
d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
e) ddatblygiad sy'n cael ei wneud ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy;

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.5. Byddai Opsiwn 1 golygu bod dim ceisiadau am ddatblygiadau mawr yn cael eu cyflwyno i awdurdod cynllunio lleol am y cyfnod lle na all datblygwyr gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol y DMPWO.

1.6. Mae prif ffynhonnell cyllid awdurdodau cynllunio lleol yn dod o incwm y ffi maen nhw'n ei gael am wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau. Mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu bod y cyllid hwn yn ddibynnol iawn ar y ffioedd cysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch y mathau hyn o geisiadau[1].

1.7. Felly, byddai oedi o ran cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr yn cael effaith niweidiol ar gyllid awdurdodau cynllunio lleol.

Y Diwydiant Datblygu

1.8. Drwy gynnal ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio ar lefel sylfaenol, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost mae'r datblygwr yn ei hysgwyddo rhwng £390 a £1,430[2]. Er y byddai atal y broses ymgynghori cyn ymgeisio dros dro yn golygu bod y costau hyn yn cael eu harbed, mae'n debygol y byddai'r costau fyddai'n deillio o'r oedi yn gwrthbwyso'r rhain. Er ei bod yn anodd amcangyfrif y gost yn union, mae'n amlwg bod oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio yn rhoi baich ariannol ar ddatblygwyr ac ar economi Cymru.

1.9. Mae oedi'n debygol o gael effaith niweidiol ar sut mae'r gwaith o ddatblygu a rheoli tir yng Nghymru yn cael ei wneud gan y system gynllunio, sy'n un o'r prif ysgogiadau o ran cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae diwydiant datblygu iach a gweithredol yn debygol o chwarae rhan sylweddol yn y broses adfer pan fydd mesurau COVID-19 yn cael eu llacio.

Y Gymuned Leol

1.10. Byddai atal y system cyn ymgeisio dros dro yn golygu oedi o ran datblygu amrywiaeth eang o ddatblygiadau ar raddfa fawr sydd o fudd economaidd a chymdeithasol, a allai niweidio cymunedau lleol, yn enwedig rhai lle mae angen tai fforddiadwy neu gyflogaeth.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

1.11. Does dim manteision o bwys i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Lleol

1.12. Ar hyn o bryd, mae adnoddau awdurdodau lleol dan bwysau o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Bydd gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio yn golygu

[1] Newidiadau i ffioedd cynllunio a ffioedd cysylltiedig â cheisiadau. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2019.
[2] EMRIA Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (prisiau wedi'u diweddaru gan ddefnyddio cyfres y datchwyddydd cynnyrch domestig gros')

bod modd ailasesu adnoddau staff yr adran gynllunio a'u hadleoli i feysydd allweddol eraill dros dro er mwyn diwallu anghenion yr awdurdod lleol.

1.13. Fodd bynnag, gallai adleoli staff, pe na baent yn dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol pan fydd y cyfyngiadau COVID-19 dechrau cael eu codi, effeithio ar weithrediad y gwasanaeth cynllunio, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar allu'r system gynllunio i gyflawni ei rôl fel gwasanaeth allweddol, a helpu gyda'r broses adfer.

Y Diwydiant Datblygu

1.14. Does dim manteision i'r diwydiant datblygu.

Y Gymuned Leol

1.15. O dan opsiwn 1, bydd y broses ymgynghori cyn ymgeisio yn cael ei hatal nes bydd adeiladau cyhoeddus yn ailagor, a fyddai'n golygu bod datblygwyr yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn i gyflwyno gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig i'r cyhoedd ei harchwilio.

**Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio**

**Disgrifiad**

1.16. Mae rhan 1A o'r DMPWO yn nodi'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio, sut dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad hwn, pwy y dylid ymgynghori â nhw, dyletswydd ymgyngoreion arbenigol i ymateb i ymgynghoriad o'r fath; a ffurf a chynnwys yr adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio.

1.17. Un gofyniad o'r fath yw bod rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig. Dydy hyn ddim bob amser yn bosib oherwydd y cyfyngiadau a'r mesurau cau adeiladau sydd ar waith mewn ymateb i COVID-19.

1.18. O ganlyniad i hyn, mae'r broses ymgynghori cyn ymgeisio wedi cael ei hatal dros dro, a dim ond y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a oedd wedi cwblhau'r weithdrefn cyn ymgeisio cyn i fesurau rheoli COVID-19 gael eu rhoi ar waith sy'n cael eu cyflwyno.

1.19. Byddai opsiwn 2 yn golygu bod Gorchymyn Datblygu'n cael ei wneud, a fyddai'n cael yr effaith ganlynol:

- Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad agos i'r datblygiad arfaethedig, a'i ddisodli â gofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r wybodaeth fod ar gael ar wefan.
- Disodli Atodlen 1B 'yr hysbysiad angenrheidiol', i adlewyrchu'r holl wybodaeth yn cael ei storio ar-lein yn unig. Nawr mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys rhif ffôn cyswllt ar gyfer y datblygwr/asiant. Dylid darparu

gwybodaeth ar ffurf copi caled ar gais, gyda'r datblygwr yn ysgwyddo'r gost.

1.20. Byddai'r newidiadau hyn yn rhai dros dro, tan 18 Medi neu tan y gwneir Gorchymyn diwygio arall i ddiddymu neu ymestyn y newidiadau dros dro yn dilyn cyngor gan y llywodraeth yng nghyswllt COVID-19.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

1.21. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

1.22. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.23. Ni fyddai awdurdodau cynllunio lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

Y Diwydiant Datblygu

1.24. Efallai y bydd y diwydiant datblygu'n wynebu'r gost ychwanegol o bostio copïau caled o wybodaeth ar gais pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. O blith yr holl gartrefi ym Mhrydain, roedd gan 93% ohonynt fynediad i'r rhyngrwyd yn 2019[3] felly mae disgwyl i nifer y ceisiadau hyn fod yn isel iawn.

1.25. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad Mawr yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Efallai mai dim ond cynllun neu arolwg penodol y bydd y rheini sy'n gwneud cais am wybodaeth eisiau ei weld, nid yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais. Er hynny, mae'r costau a ysgwyddir yn ddi-nod o'u cymharu â'r costau posibl fyddai'n cael eu hysgwyddo yn sgil yr oedi.

Y Gymuned Leol

1.26. Ni fyddai'r gymuned leol yn wynebu unrhyw gostau ariannol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

1.27. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn dal yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol. Bydd rhif ffôn yn cael ei ddarparu ar hysbysiad y safle, a gall pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd ddefnyddio hwn i wneud cais am gopi caled o'r wybodaeth berthnasol. Gallent hefyd drafod y datblygiad gyda'r datblygwr/asiant.

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddwyr y Rhyngrwyd, y DU 2019

1.28. Oherwydd bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol neu'n hunanynysu, mae risg na fydd y bobl nad ymgynghorir â nhw'n uniongyrchol yn gweld yr hysbysiad safle, ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r ymgynghoriad. Er mai cyhoeddi hysbysiad safle a rhoi gwybod i gymdogion uniongyrchol yw'r unig ofynion statudol o ran cyhoeddusrwydd, mae datblygwyr yn aml yn mynd gam ymhellach na'r gofynion sylfaenol i sicrhau bod eu hymgynghoriad yn cyrraedd cymaint o bobl â phosib, er enghraifft, drwy bostio negeseuon ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

1.29. Bydd datblygwyr yn cael eu hatgoffa i fanteisio ar gyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi eu hymgyngoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Bydd llafar gwlad hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau.

1.30. Serch hynny, ar ôl cyflwyno cais cynllunio, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnal proses cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad ffurfiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle arall i'r rheini sydd â buddiant yn y datblygiad i wneud sylwadau cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio.

**Manteision**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

1.31. Byddai'r diwygiad deddfwriaethol a gynigir o dan opsiwn 2 yn ailgychwyn y broses ymgynghori cyn ymgeisio. Bydd hyn yn galluogi gweithdrefnau ymgynghori cyn ymgeisio i weithio yng Nghymru.

1.32. Mae Ffyniant i Bawb[4] yn cydnabod bod penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn ac mae'n cyfleu'r neges o weithio mewn ffordd wahanol. Mae'r strategaeth yn nodi bod cael system gynllunio addas yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Bydd diwygio gweithdrefnau'n sicrhau bod y system ceisiadau cynllunio'n gweithredu'n ddidrafferth, gan helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau datblygiad cynaliadwy, a helpu busnesau drwy gynnal system gynllunio effeithiol sy'n darparu'r gallu i greu cyfleoedd economaidd i bawb.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

1.33. Byddai awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael incwm o ffioedd ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr.

1.34. Byddai adrannau cynllunio yn cadw staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn barod i geisiadau gael eu cyflwyno ar ôl COVID-19 fel rhan o'r broses o adfer yr economi.

[4] Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Symud Cymru Ymlaen. Llywodraeth Cymru. 2017

Y Diwydiant Datblygu

1.35. O dan opsiwn 2, byddai'r diwydiant datblygu yn ailgychwyn y broses ymgynghori cyn ymgeisio, sy'n arwain yn y pen draw at allu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr. Bydd hyn yn atal oedi helaeth o ran cyflwyno ceisiadau cynllunio, a'r effeithiau ar y sector adeiladu sy'n deillio o hynny.

1.36. Gall y diwydiant datblygu sicrhau parhad busnes drwy wneud yn siŵr bod ceisiadau cynllunio yn parhau i gael eu cyflwyno. Bydd hyn y cyfrannu at sicrhau bod pobl sydd â swyddi cysylltiedig â'r system gynllunio yn cael eu cadw mewn gwaith yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn, gan gefnogi economi fywiog a chreu cyfoeth.

Y Gymuned Leol

1.37. O dan opsiwn 2, bydd y gymuned leol yn elwa'n uniongyrchol os bydd y diwydiant datblygu'n gallu parhau – yn sgil datblygiadau sy'n amrywio o dai fforddiadwy i fusnesau'n codi adeiladau newydd, a fydd yn creu cyflogaeth. Bydd hyn yn arwain at fanteision yn y diwydiant adeiladu ac i'r rheini fydd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn.

**Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

1.38. Byddai opsiwn 1 yn atal datblygiadau mawr gan y diwydiant datblygu dros dro. Byddai hyn yn esgor ar oblygiadau economaidd i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a'r economi ehangach. Gallai'r oedi effeithio ar barodrwydd y system gynllunio i helpu gyda'r broses adfer ar ôl Covid-19.

1.39. Byddai opsiwn 2 yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn gallu bwrw ymlaen, gan atal oedi yn y diwydiant datblygu a'r system gynllunio.

1.40. Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

## 2. Ymgynghori â Chynghorau Cymuned

**Opsiynau**

2.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad

**Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

**Disgrifiad**

2.2. Yng nghyswllt y broses ceisiadau cynllunio, ar ôl i Gynghorau Cymuned roi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol eu bod yn dymuno cael gwybod am gais penodol, mae Erthygl 16 y DMPWO yn rhoi cyfnod statudol o 14 diwrnod (30 diwrnod ar gyfer cais sy'n ymwneud ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) iddynt gyflwyno eu sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i rwystro rhag gwneud penderfyniad am geisiadau yn ystod y cyfnod hwn.

2.3. Byddai gwneud dim byd yn golygu bod y cyfnod yn aros yn 14 diwrnod.

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

2.4. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.5. Er na fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol, gallai hyn gael effaith ddemocrataidd oherwydd mae'n bosibl y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud heb dderbyn sylwadau gan Gynghorau Cymuned.

2.6. Gallai cynrychiolaeth Cynghorau Cymuned fod wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

<u>Cynghorau Cymuned</u>

2.7 Er na fyddai Cynghorau Cymuned yn wynebu cost ariannol, mae risg na fyddent yn gallu bod yn rhan o'r broses gynllunio oherwydd eu bod yn methu cydlynu cyfarfod o bell a chyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio lleol o fewn y cyfnod 14 diwrnod a ganiateir ar hyn o bryd.

2.8 Byddai hyn yn arwain at ddiffyg democratiaidd yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

2.9 Does dim manteision i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.10 Does dim manteision i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Cynghorau Cymuned a Thref

2.11 Does dim manteision i Gynghorau Cymuned a Thref.

**Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad**

**Disgrifiad**

2.12 Byddai opsiwn 2 yn golygu bod Gorchymyn Diwygio yn cael ei gynnig, sy'n ymestyn y cyfnod sydd gan Gynghorau Cymuned a Thref i gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dilyn cais i ymgynghori â nhw – o 14 diwrnod i 21 diwrnod.

2.13 Byddai'r diwygiad yn rhoi mwy o amser i ymateb gan ystyried yr anawsterau mae Cynghorau Cymuned yn eu hwynebu yn sgil mesurau rheoli'r llywodraeth yng nghyswllt COVID-19, o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd oedd wedi'u trefnu.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

2.14 Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

2.15 Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.16 Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

Cynghorau Cymuned a Thref

2.17 Ni fyddai Cynghorau Cymuned a Thref yn wynebu cost ariannol.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

2.18 Does dim manteision uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.19 Byddai ymestyn y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion gan Gynghorau Cymuned i 21 diwrnod yn rhoi'r un faint o amser ag y mae'r cyhoedd yn ei gael fel rhan o'r cyfnod cyhoeddusrwydd statudol.

2.20 Bydd pennu un dyddiad lle disgwylir i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law yn helpu i reoli'r broses ymgeisio.

Cynghorau Cymuned a Thref

2.21 O dan opsiwn 2, byddai Cynghorau Cymuned yn cael 7 diwrnod ychwanegol i gyflwyno eu hymateb i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

2.22 Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu Cynghorau Cymuned i gynnal eu cyfarfodydd rheolaidd oherwydd bod mannau cyfarfod wedi cau a bod aelodau'n cadw pellter cymdeithasol.

2.23 Bydd yr amser ychwanegol yn rhoi amser i Gynghorau Cymuned drefnu cyfarfodydd o bell a chyflwyno ymatebion i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar amser.

**Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

2.24 Byddai opsiwn 1 yn golygu bod y cyfnod cyflwyno ymatebion presennol yn aros mewn grym, sy'n nodi bod gan gynghorau cymuned a thref 14 diwrnod i wneud sylwadau am geisiadau cynllunio ar ôl gwneud cais i fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r oedi o ran gallu Cynghorau Cymuned i gynnal cyfarfodydd yn debygol o olygu y byddant yn cymryd mwy o amser nag arfer i gyflwyno ymatebion, gan olygu y gallent gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol ar ôl i'r penderfyniad am y cais cynllunio gael ei wneud.

2.25 Byddai opsiwn 2 yn ymestyn y cyfnod sydd gan Gynghorau Cymuned i gyflwyno sylwadau i 21 diwrnod, sef yr un faint â'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cyhoedd. Byddai'r amser ychwanegol yn helpu Cynghorau Cymuned i gyflwyno ymatebion i geisiadau cynllunio ar amser, gan sicrhau cymaint o gynhwysiant democrataidd â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau.

2.26 Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

## 3. Newid Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

**Opsiynau**

3.1. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.

- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig.

**Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

**Disgrifiad**

3.2. Lle caiff cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ei wneud yn electronig, mae'r DNSPWO yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Gwneir hyn at ddibenion ymarferol, er enghraifft, i sicrhau bod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru gopi caled wrth law i ddadansoddi'r cais, gan mai hwn yw'r fformat sy'n cael ei ffafrio gan nifer o'r swyddogion a'r unigolion penodedig fydd yn archwilio'r cais.

3.3. Gallai gwneud dim byd olygu bod y gofyniad hwn yn dal mewn grym, pe bai cais yn cael ei gyflwyno'n electronig.

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

3.4. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

3.5. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

<u>Y Diwydiant Datblygu</u>

3.6. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn £120, ar sail y gost o argraffu 1,000 o dudalennau mewn lliw, costau rhwymo a'r gost o blotio 25 o ddarluniau maint A1. Amcangyfrifir y byddai'r gost o gyflwyno dau gais, gan gynnwys costau danfon, yn £260 y cais.

**Manteision**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

3.7. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw fanteision mawr oherwydd bydd copi o’r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag.  Mater o gyfleuster i’r swyddogion sy’n dadansoddi’r cais fyddai cael copi caled.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.8. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael unrhyw fanteision o bwys, oherwydd bydd copi o’r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag.  Mater o gyfleuster i’r swyddogion sy’n dadansoddi’r cais fyddai cael copi caled.  Er y gellid sicrhau bod copi caled ar gael i’w archwilio, caiff y ddyletswydd o gynnal cofrestr gynllunio ei chynnal a’i chyflawni’n electronig fel arfer.

Y Diwydiant Datblygu

3.9. Does dim manteision hysbys i’r Diwydiant Datblygu.  Gan na fyddai'r Diwydiant Datblygu’n gallu cydymffurfio â gofynion y DNSPWO, ni fyddai’n gallu cyflwyno cais dilys.

**Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i ddileu'r gofyniad sy’n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o’r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a’r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig.  Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i’r ymgynghoriad**

**Disgrifiad**

3.10. Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno’n electronig fel arfer.  Yn ystod y pandemig COVID-19, gallai problemau ymarferol godi yng nghyswllt cyflwyno copïau caled oherwydd nid oes staff i’w derbyn yn y swyddfeydd perthnasol, ac ni ellir cadarnhau eu bod wedi dod i law bob amser.

3.11. Byddai opsiwn 2 yn golygu bod diwygiad yn cael ei wneud i’r DNSPWO er mwyn dileu'r gofyniad sy’n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a’r Awdurdod Cynllunio Lleol, am resymau ymarferol, lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

3.12. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.  Oherwydd bod dim staff yn y swyddfeydd ar hyn o bryd, ni fyddai modd argraffu’r cais.  Mae’n rhaid i swyddogion ddadansoddi pob cais yn electronig.

3.13. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy’n bodoli eisoes.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.14. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Oherwydd bod dim staff yn y swyddfeydd ar hyn o bryd, ni fyddai modd argraffu'r cais. Mae'n rhaid i swyddogion ddadansoddi pob cais yn electronig.

Y Diwydiant Datblygu

3.15. Byddai tua £260 o gostau yn cael eu harbed yng nghyswllt pob cais.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

3.16. Does dim manteision uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.17. Does dim manteision uniongyrchol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Y Diwydiant Datblygu

3.18. Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Diwydiant Datblygu i gydymffurfio â gofynion y DNSPWO. Bydd y newid yn opsiwn 2 yn galluogi'r Diwydiant Datblygu i barhau i gyflwyno ceisiadau a chydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

**Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

3.19. Byddai opsiwn 1 yn golygu bod popeth yn aros yr un fath, fodd bynnag, gallai olygu bod ceisiadau ddim yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ac nad oes modd eu cyflwyno felly. Byddai opsiwn 2, er ei fod yn achosi rhywfaint o anghyfleustra i'r rheini sy'n dadansoddi'r cais, yn caniatáu i'r broses fynd yn ei blaen, drwy ddileu gofyniad sy'n atal ceisiadau rhag cael eu cyflwyno.

3.20. Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

**Asesiad o'r Gystadleuaeth**

4.1. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gwblhau. Does dim disgwyl i'r cynigion effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na pha mor gystadleuol yw busnesau Cymru.

DIWEDD

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS/MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Mai 2020

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Gorchymyn")**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rydw i'n eich hysbysu chi bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod cyflwyno gerbron. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn wedi'i atodi er gwybodaeth.

Mae'r cyfyngiadau ar deithio a'r mesurau cau adeiladau oedd yn angenrheidiol er mwyn arafu COVID-19 wedi atal rhai ceisiadau cynllunio rhag cael eu cyflwyno oherwydd bod dim modd cydymffurfio â'r gweithdrefnau cyn ymgeisio. Bwriad y gorchymyn yw addasu gweithdrefnau cynllunio dros dro ar gyfer y cyfnod sy'n cychwyn ar 19 Mai ac yn gorffen ar 18 Medi (y cyfnod dros dro) er mwyn cael gwared â'r rhwystrau hyn a galluogi ceisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn i gael eu cyflwyno yn dilyn yr addasiadau.

Mae'r Gorchymyn yn addasu'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO") drwy ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn lleoliad lleol yn ystod y cyfnod dros dro. Yn hytrach, bydd rhaid i'r holl wybodaeth fod ar gael ar-lein a bydd pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn gallu gwneud cais am gopïau caled o'r wybodaeth.

Mae'r gorchymyn hefyd yn addasu'r DMPWO yn ystod y cyfnod dros dro, drwy ymestyn y cyfnod sydd gan gynghorau cymuned i gyflwyno sylwadau o 14 i 21 diwrnod, er mwyn ystyried anawsterau o ran trefnu a chynnal cyfarfodydd rheolaidd o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Mae'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yng Ngorchymyn

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 wedi'i ddatgymhwyso ar gyfer y cyfnod dros dro. Bwriad hyn yw goresgyn y cyfyngiadau ar deithio nad yw'n hanfodol a'r mesurau i gau adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol.

Mae gofyn i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn i'r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effaith cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor adeiladau, gan gyfrannu at system gynllunio weithredol. Bydd yn galluogi caniatâd cynllunio i gael ei gyflwyno, sy'n golygu (os yw'n cael caniatâd) y gallai'r sector adeiladu roi'r caniatâd hwnnw ar waith cyn gynted ag y bo'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn golygu bod mwy a mwy o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno yn cronni. Gallai hyn gael effaith ar y sector adeiladu a'r economi, mewn cyfnod lle mae'n bwysig gwyrdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau'r effaith economaidd a'r difrod cymdeithasol tymor hir sy'n cael ei achosi. Credir ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod, a bod modd cyfiawnhau hyn yn yr achos hwn.

Oherwydd bod angen y Gorchymyn ar unwaith ac nad yw wedi bod yn destun ymgynghoriad, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi ac mae hwn wedi cael ei roi gerbron y Swyddfa Gyflwyno ynghyd â'r Rheoliadau.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambrau; a Julian Lake, Pennaeth y Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Y Gweinidog Cyllid a Threfnydd

# SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Cymru) 2020 ("y Prif Reoliadau") i gynyddu swm y gosb benodedig am dorri'r Prif Reoliadau dro ar ôl tro hyd at uchafswm o £1,920.

Mae'r strwythur dirwyon blaenorol a newydd wedi'i nodi yn y tabl isod:

| | Y drefn bresennol o ran dirwyon | Y drefn newydd o ran dirwyon |
|---|---|---|
| Y drosedd gyntaf | £60 | £60 |
| Yr ail drosedd | £120 | £120 |
| Y drydedd drosedd | £120 | £240 |
| Y bedwaredd drosedd | £120 | £480 |
| Y bumed drosedd | £120 | £960 |
| Y chweched drosedd | £120 | £1,920 |

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**.

Ymddengys bod nifer o wallau yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau hyn:

1. Yn y rhaglith i'r testun Cymraeg dylai "iechyd a cyhoedd" ddweud "iechyd y cyhoedd"
2. Nid yw'r cyfeiriad at "Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol" yn y troednodyn ar dudalen 3 yn cynnwys blwyddyn y Ddeddf

3. Rheoliad 2(2) - mae'r diwygiad yn achosi i "y" ymddangos ddwywaith yn y testun Cymraeg, felly mae'r testun diwygiedig bellach yn dweud "ar y **y** cynharaf o'r canlynol "(ychwanegwyd pwyslais)
4. Rheoliad 2(3)(iii) - mae'r "yn" ar goll cyn "achos y pedwerydd...."

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn frys o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), o ystyried y bu trafodaeth gyhoeddus eang ynghylch lefel hysbysiadau cosb penodedig Cymru yn ystod yr wythnosau yn arwain at wneud y Rheoliadau hyn. Hynny yw, gofynnwn beth ddigwyddodd a arweiniodd at angen brys i gynyddu lefel yr hysbysiadau cosb penodedig yng Nghymru.

Nodwn nad oes yn rhaid defnyddio'r weithdrefn "gwneud cadarnhaol" frys o dan Ddeddf 1984, ac mai'r weithdrefn "gadarnhaol ddrafft" fwy arferol (lle mae'r Senedd yn cymeradwyo rheoliadau **cyn** iddynt gael eu gwneud) yw'r weithdrefn ddiofyn o dan Ddeddf 1984.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth:

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 529 (Cy. 124)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud dau ddiwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae paragraff (3) yn diwygio rheoliad 13 o'r prif Reoliadau i gynyddu swm y gosb benodedig am dorri'r Rheoliadau dro ar ôl tro, hyd at uchafswm o £1920. Mae'r cosbau uwch yn gymwys i unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir ar 22 Mai 2020 neu ar ôl hynny. Wrth bennu sawl hysbysiad y mae person wedi ei dderbyn at ddibenion cyfrifo swm cosb benodedig, caiff hysbysiadau a dderbyniodd y person hwnnw cyn 22 Mai eu cyfrif.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae paragraff (2) yn gwneud mân ddiwygiad i reoliad 3 o'r prif Reoliadau o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed i'r rheoliad hwnnw gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 529 (Cy. 124)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *21 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym* | *22 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd a cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 a deuant i rym ar 22 Mai 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, ym mharagraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "diwrnod" hyd at y diwedd rhodder "y cynharaf o'r canlynol—

(i) dirymu'r ddarpariaeth sy'n gosod y gofyniad neu'r cyfyngiad, neu

(ii) pan ddaw'r Rheoliadau hyn i ben o dan reoliad 15."

(3) Yn rheoliad 13, ym mharagraff (8), yn lle ", swm y gosb benodedig yw £120 ac nid yw paragraff (7) yn gymwys" rhodder "—

(a) nid yw paragraff (7) yn gymwys, a

(b) rhaid i'r swm a bennir fel y gosb benodedig fod—

(i) yn £120 yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(ii) yn £240 yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iii) yn £480 achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iv) yn £960 yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(v) yn £1920 yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dderbynnir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig olynol.”

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
20 Mai 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

21 Mai 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”) sydd—

- yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle cânt adael y man lle maent yn byw ac atal cynulliadau o grwpiau o fwy na dau o bobl, ac;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau a thir cyhoeddus penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o’r coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Nid yw’r diwygiadau a geir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y mae’r prif Reoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae’r Prif Reoliadau’n cyffwrdd â’r erthyglau hyn: Erthygl 8 – yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol; Erthygl 11 – rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu; ac Erthygl 1 o’r Protocol cyntaf – diogelu eiddo.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae’r cynnydd o ran terfyn yr hysbysiadau cosb benodedig a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a

achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau. Gwneir hyn drwy roi rhagor o resymau i bobl adael eu cartrefi, mewn modd sy'n dal yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i “the appropriate Minister” ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r prif Reoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Yn dilyn llacio’r cyfyngiadau teithio yn Lloegr gan Lywodraeth y DU, mae’r dystiolaeth o’r pedwar heddlu yng Nghymru yn dangos bod lleiafrif bach o bobl yn torri’r prif reoliadau, yn enwedig drwy deithio i fannau prydferth adnabyddus ledled Cymru, er y bu’r mannau hynny ar gau ers diwedd mis Mawrth.

Ar ôl i’r pedwar heddlu yng Nghymru a’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu alw am gosbau uwch i helpu i annog pobl i beidio â thorri’r prif Reoliadau, mae’r dirwyon uwch yn cael eu cyflwyno cyn penwythnos gŵyl y banc.

Cyflwynwyd dros 1,300 o hysbysiadau cosb benodedig yn ystod yr 8 wythnos ers i’r prif Reoliadau ddod i rym ar 26 Mawrth 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ganiatáu i swm cosb benodedig ar gyfer achosion o dorri'r rheoliadau fwy nag unwaith gael ei ddyblu hyd at uchafswm o £1920 (darperir ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig yn y prif reoliadau fel dewis arall yn lle dwyn achos troseddol lle gellir cyflwyno dirwy ddiderfyn).

| | Y drefn bresennol o ran dirwyon | Y drefn newydd o ran dirywon |
|---|---|---|
| Y drosedd gyntaf | £60 | £60 |
| Yr ail drosedd | £120 | £120 |
| Y drydedd drosedd | £120 | £240 |
| Y bedwaredd drosedd | £120 | £480 |
| Y pumed drosedd | £120 | £960 |
| Y chweched drosedd | £120 | £1,920 |

Yn ogystal, mae rheoliad 2(2) yn gwneud mân ddiwygiad i reoliad 3 o'r prif Reoliadau o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed i'r rheoliad hwnnw gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

Bydd y prif Reoliadau (a'r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU. Fodd bynnag, ymgynghorwyd â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn dilyn pryderon a godwyd gan heddluoedd ynghylch cosbau penodedig.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Mai 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Mai 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 23 Mehefin 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)554 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y prif Reoliadau") OS 2020/353, a wnaed o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (fel y'i diwygiwyd), ac yn dod i rym am 4:00 p.m. ar 1 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau, ac mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys:

(a) darpariaethau sy'n galluogi priodas neu bartneriaeth sifil pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol;

(b) llacio'r gofyniad i aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol sy'n galluogi pobl i fod yn yr awyr agored at unrhyw ddiben o fewn eu hardal leol;

(c) llacio'r cyfyngiad ar ymgynnull sy'n caniatáu i bersonau o ddim mwy na dwy aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae hawliau'r Confensiwn y mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hwy yr un fath â'r rhai y mae'r Prif Reoliadau yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys yr hawliau a ganlyn o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop: Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei nodi: 'Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.'

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi sylwebaeth ychwanegol Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch yr ystyriaethau Hawliau Dynol.

‘Mae’r llacio rhannol ar y cyfyngiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, gan roi rhagor o gyfleoedd i bobl adael eu cartrefi a chwrdd â ffrindiau a theulu, er y bydd gwneud hynny’n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.’

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**3 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 557 (Cy. 129)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys—

(a) darpariaethau sy'n galluogi priodas neu bartneriaeth sifil pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol;

(b) llacio'r gofyniad i aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol sy'n galluogi pobl i fod yn yr awyr agored at unrhyw ddiben o fewn eu hardal leol;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) llacio'r cyfyngiad ar ymgynnull sy'n caniatáu i bersonau o ddim mwy na dwy aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 557 (Cy. 129)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

*Gwnaed* *29 Mai 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 12.00 p.m. ar 1 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym* *am 4.00 p.m. ar 1 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a deuant i rym am 4.00 p.m. ar 1 Mehefin 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2)—

(a) o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil, pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol ac na ddisgwylir iddo wella,";

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) i ddarlledu (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu)—

(i) gweithred o addoli (heb gynulleidfa);

(ii) gweinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil a ganiateir gan is-baragraff (aa);

(iii) angladd, neu ".

(3) Yn lle rheoliad 8 rhodder—

**"Cyfyngiadau ar symud a bod o dan do yn ystod cyfnod yr argyfwng**

**8.**—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff neb, heb esgus rhesymol—

(a) gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r ardal honno;

(b) bod o dan do gyda pherson arall nad yw—

(i) yn aelod o'i aelwyd,

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/399 (Cy. 88), O.S. 2020/452 (Cy. 102), O.S. 2020/497 (Cy. 118) ac O.S. 2020/529 (Cy. 124).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) yn ofalwr iddo, neu

(iii) yn berson y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (ond gweler paragraff (3))—

(a) cael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;

(b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 38 neu 39 o Atodlen 1 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;

(c) ceisio cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(d) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol, o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006( ), lle y mae'r person sy'n derbyn y gofal yn berson hyglwyf;

(e) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(f) rhoi gwaed;

(g) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol (ond gweler hefyd reoliad 8A);

(h) galluogi i waith gael ei wneud mewn unrhyw fangre (ond gweler hefyd reoliad 8A);

(i) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil, pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol ac na ddisgwylir iddo wella—

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.

(j) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(k) ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;

(l) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(m) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —

(i) gofal plant neu wasanaethau addysgol (pan fo'r rhain yn dal i fod ar gael i blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto);

(ii) gwasanaethau cymdeithasol;

(iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;

(iv) gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr (megis dioddefwyr trosedd neu drais domestig);

(n) ymweld â llyfrgell;

(o) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(p) yn achos gweinidog yr efengyl neu arweinydd addoli, mynd i'w fan addoli;

(q) symud tŷ pan na fo modd gohirio'r symud;

(r) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

(3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw er mwyn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gwneud rhywbeth, neu aros i ffwrdd o'r ardal er mwyn gwneud rhywbeth, os byddai'n rhesymol ymarferol iddo wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.

(4) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys i berson sy'n gwneud ymarfer corff, pan fo'r ymarfer corff yn dechrau ac yn gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw.

(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddigartref"

(4) Ar ôl rheoliad 8 newydd mewnosoder—

**"Gofyniad i barhau i weithio gartref pan fo'n ymarferol**

**8A.**—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) ni chaiff unrhyw berson adael y man lle y mae'n byw, neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw, at ddibenion gwaith neu i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol.

(2) Yr amgylchiadau yw ei bod yn rhesymol ymarferol i'r person weithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol o'r man lle y mae'n byw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r man lle y mae person yn byw yn cynnwys y fangre lle y mae'n byw ynghyd ag unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath."

(5) Ar ôl rheoliad newydd 8A mewnosoder—

**"Cyfyngiadau ar ymgynnull â phersonau eraill**

**8B.** Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad yn yr awyr agored ac eithrio—

(a) pan fo'r personau sy'n ymgynnull yn aelodau o ddim mwy na dwy aelwyd,

(b) pan fo'r cynulliad yn hanfodol at ddibenion gwaith,

(c) i fynd i angladd, neu

(d) pan fo'r cynulliad yn angenrheidiol—

  (i) i hwyluso symud tŷ,

  (ii) i ddarparu gofal neu gynhorthwy i berson hyglwyf, yn cynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iii) i ddarparu cynhorthwy brys i unrhyw berson, neu

(iv) i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, neu gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol.”

(6) Yn rheoliad 10—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn y geiriau ar y dechrau, yn lle “torri’r gofyniad yn 8(1)” rhodder “torri gofyniad yn rheoliad 8(1) neu 8A”;

(ii) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder “(os nad yw P yno eisoes)”;

(iii) yn is-baragraff (b), ar y diwedd mewnosoder “(os nad yw P yno eisoes)”;

(b) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (7)—

(i) yn lle “tri neu ragor o bobl” rhodder “pobl”;

(ii) yn lle “8(5)” rhodder “8B”;

(c) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (8A), yn lle “8(5)” rhodder “8B”.

(7) Yn rheoliad 12(1)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “8(5)” rhodder “8A, 8B”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “torri’r gofyniad yn rheoliad 8(1)” rhodder “torri gofyniad yn rheoliad 8(1)”.

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
29 Mai 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1 Mehefin 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”) sydd –

- yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan gynnwys nodi amgylchiadau lle cânt adael ac aros i ffwrdd o’r man lle maent yn byw, ac;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau a thir cyhoeddus penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o’r coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw’r diwygiadau a geir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y mae’r prif Reoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae’r prif Reoliadau’n cyffwrdd ag Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae’r llacio rhannol ar y cyfyngiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir

gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, gan roi rhagor o gyfleoedd i bobl adael eu cartrefi a chwrdd â ffrindiau a theulu, er y bydd gwneud hynny’n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i “the appropriate Minister” ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y prif Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae’r prif Reoliadau bellach yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

a. Ni fydd pobl yng Nghymru bellach yn cael eu hatal rhag gadael eu cartrefi neu aros i ffwrdd o’u cartrefi, gan nad ystyrir bod y lefel hon o gyfyngiadau bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur i atal coronafeirws rhag lledaenu. Yn lle hynny, gwneir y darpariaethau canlynol: –

    i. Ni chaiff neb adael yr ardal sy’n lleol i’r man lle mae’n byw neu aros i ffwrdd o’r ardal honno, na bod o dan do gyda pherson arall nad yw’n rhan o’i aelwyd nac yn ofalwr iddo heb esgus rhesymol.

    ii. Mae’r rhestr anghynhwysfawr o’r hyn sy’n cael ei ystyried yn esgus rhesymol wedi cael ei diweddaru. Nid oes angen bellach

nodi'r gweithgareddau y gellir eu gwneud yn lleol fel chasglu archeb a wneir ar-lein (clicio a chasglu). Mae'r materion sydd ar ôl yn ymwneud â'r gweithgareddau hynny y dylid ymgymryd â nhw dim ond os na ellir eu gwneud yn lleol.

b. Caniateir cynnal seremonïau priodas a phartneriaeth sifil pan fydd gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol. Mae'r cyfyngiad ar ymgynnull wedi cael ei lacio hefyd i ganiatáu mynychu seremonïau priodas a phartneriaeth sifil pan fydd gan un parti salwch angheuol, ac mae gadael yr ardal leol i fynychu seremonïau o'r fath bellach yn cael ei ystyried yn esgus rhesymol.

c. Caniateir i ddwy aelwyd gwrdd yn yr awyr agored. Cydnabyddir y gall y cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull arwain at effeithiau niweidiol ar lesiant, yn benodol ar iechyd meddwl. Mae tystiolaeth yn nodi bod y risg o'r feirws yn cael ei drosglwyddo yn is yn yr awyr agored, a gellir ategu'r risg is hon drwy gydymffurfio â'r gofyniad i gadw pellter corfforol o ddau fetr. O'r herwydd, bellach nid ystyrir y cyfyngiad ar gwrdd ag eraill yn yr awyr agored yn ymateb cymesur. Mae'r Llywodraeth wedi diweddaru'r canllawiau i ategu parhau â'r gofyniad i gadw pellter corfforol.

d. Caiff ymgynulliadau eraill yn yr awyr agored barhau, os yw hynny'n hanfodol ar gyfer y gwaith, i fynychu claddedigaeth neu angladd, neu at ddibenion cyfyngedig eraill (gweler Rheoliad 8B newydd).

e. Cadarnheir y caiff perchnogion busnes (gan gynnwys y rheini sy'n darparu llety ar gyfer gwyliau) a darparwyr gwasanaethau na chânt agor na darparu gwasanaeth ar hyn o bryd baratoi eu busnes, neu eu gwasanaeth, i fod yn barod i agor neu ailddechrau pan fydd y cyfyngiadau presennol yn cael eu codi. Cânt hefyd, tra byddant ar gau, gynnal a chadw eu safleoedd os oes angen a chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hefyd yn gwneud y darpariaethau canlyniadol a'r darpariaethau arbedion sydd eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau a amlinellir uchod.

Bydd y prif Reoliadau (a'r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y newidiadau arfaethedig i’w cyflwyno gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ystod ei Gynhadledd i’r Wasg ar 29 Mai, a chawsant lawer o sylw yn y cyfryngau wedyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Mai 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4pm ar 1 Mehefin 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 29 Mehefin 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Fodd bynnag, gan fod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4)2020 yn cael eu trafod ar 17 Mehefin, mae'r Llywodraeth yn bwriadu amserlennu'r ddadl ar y Rheoliadau hyn ar yr un diwrnod.

Er fy mod yn sylweddoli bod hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i adrodd ychydig, mae'r berthynas rhwng y Rheoliadau hyn yn golygu mai eu trafod gyda'i gilydd fyddai'r dull mwyaf cydlynol. Nid yw'n bosibl aildrefnu'r ddadl ar y Rheoliadau cynharach, gan fod rhaid eu cymeradwyo erbyn 23 Mehefin. Bydd hefyd yn golygu y bydd y Senedd wedi ystyried yr holl Reoliadau diwygio cyn yr adolygiad tair wythnos nesaf, a chyn gosod unrhyw reoliadau pellach a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw.


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

# SL(5)549 – Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("Rheoliadau 2013") er mwyn newid dyddiad cychwyn y tymor ymdrochi yng Nghymru am y flwyddyn 2020. Mae'r diwygiad hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i ymlediad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 14 Mai 2020.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch bod Cyfoeth Naturiol Cymru, o ganlyniad i argyfwng COVID-19, yn methu â gwneud ei waith arferol o brofi'r dyfroedd ymdrochi cyn dechrau'r tymor ymdrochi na chasglu'r data angenrheidiol am ansawdd dŵr erbyn dechrau'r tymor ymdrochi ar 15 Mai. Heb y Rheoliadau diwygio hyn, 15 Mai fyddai dyddiad cychwyn statudol penodol y tymor ymdrochi yng Nghymru a byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri el rwymedigaethau statudol. Yn ôl y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 niwrnod yn cael ei gyfiawnhau o ystyried yr amgylchiadau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â sefyllfa argyfwng COVID-19. Byddai hyn nid yn unig yn darparu'r eglurder cyfreithiol angenrheidiol ynghylch tymor ymdrochi 2020 yng Nghymru ond byddai hefyd yn lleihau unrhyw risg o her gyfreithiol a gweithdrefnau dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeaidd."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliadau 2013, sy'n cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, yn rheoliadau cyfansawdd ac yn gymwys i Gymru a Lloegr.

Fodd bynnag, bydd y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig. Mae'r diwygiad i reoliad 4 o Reoliadau 2013 yn golygu y bydd y dyddiadau ar gyfer y tymor ymdrochi yng Nghymru yn wahanol i Loegr yn y flwyddyn 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw newidiadau.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn newid y sefyllfa yng Nghymru fel a ganlyn:

> *"For the purposes of these Regulations, the bathing season in Wales—*
>
> *(a) subject to paragraph (b), begins on 15th May and ends at the end of the day on 30th September in each year;*
> *(b) for the year 2020, begins on 22nd June and ends at the end of the day on 30th September."*

Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau diwygio wedi dileu'r geiriau 'and Wales' mewn mannau lle bydd y testun yn ymwneud â Lloegr yn unig. Y geiriad yw:

> *"For the purposes of these Regulations, the bathing season in England and Wales begins on 15th May and ends at the end of the day on 30th September in each year."*

Er bod y Rheoliadau diwygio yn dechnegol gadarn, mae'r newid yn achosi diffyg eglurder yn Rheoliadau sylfaenol 2013.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai newid y testun i'r graddau y mae'n gymwys i Loegr o fewn cymhwysedd gan mai diben hynny yw egluro'r gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Nid yw'n newid y gyfraith yn Lloegr.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb y Llywodraeth

Ymateb y Llywodraeth i bwynt craffu ar rinweddau 2 ar Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Nodir y pwynt hwn. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried y gellid cael gwared ar y cyfeiriad at "Wales" yn y testun sy'n gymwys i Loegr. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor y byddai hynny wedi bod yn fwy eglur. Fodd bynnag, er ein bod wedi trafod mater y tymor ymdrochi yn ehangach gyda chydweithwyr yn Defra, nid oeddem wedi cael cadarnhad oddi wrth Defra na fyddent yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â Lloegr.

Oherwydd natur frys yr offeryn hwn sy'n ymwneud â COVID, a'r amserlen hynod dynn a oedd yn gysylltiedig ag ef, nid oedd yna ddigon o amser i fod yn sicr y byddem yn cael cadarnhad oddi wrth Lywodraeth y DU cyn bod angen gwneud y Rheoliadau (yn dilyn pa bynnag ystyriaeth fewnol y gallent fod yn dymuno ei chynnal).

Heb y cadarnhad hwnnw, roedd yna risg y byddai darpariaethau yn gwrthdaro â'i gilydd o ganlyniad i'r dull hwn o weithredu. Penderfynwyd felly ei bod yn synhwyrol, o dan yr amgylchiadau hyn, bwrw ymlaen

â'r diwygiad fel y'i drafftiwyd mewn perthynas â Chymru ac osgoi'r risg y byddai problemau'n codi o ran dilysrwydd fersiynau.

Fel ag y mae pethau ar hyn o bryd, er bod yna gyfeiriad at "Wales" yn y testun sy'n ymwneud â Lloegr, nid yw'n creu unrhyw broblemau ymarferol yn Lloegr – nac, yn wir, yng Nghymru – gan na all dyfroedd ymdrochi yng Nghymru, wrth gwrs, ond fod yn ddarostyngedig i'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Mai 2020**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL ANSOLFEDD A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol (**y Bil**) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mai 2020.

3. Gellir gweld y Bil yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0128/20128.pdf

**Amcanion Polisi**

4. Mae i'r Bil ddau ddiben. Yn gyntaf, mae rhai darpariaethau wedi'u hanelu'n benodol at roi mesurau brys dros dro ar waith i fynd i'r afael â phandemig COVID-19 drwy ddiwygio cyfraith Cwmnïau ac Ansolfedd. Mae'r darpariaethau eraill yn cyflwyno'n gynt ddiwygiadau i gyfraith ansolfedd y mae Llywodraeth y DU wedi bod yn eu datblygu ac yn ymgynghori arnynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

5. Ystyrir y bydd y mesurau hyn yn ddefnyddiol iawn o ran mynd i'r afael â'r materion sydd wedi codi yn sgil pandemig COVID-19, ac felly maent yn cael eu cyflwyno'n gynt er mwyn cefnogi amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU i helpu cwmnïau ac endidau cyffelyb eraill yn y DU drwy leihau'r baich ar fusnesau, gan eu helpu i osgoi ansolfedd a gwneud cymaint â phosibl i'w helpu i oroesi yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd o ganlyniad i bandemig COVID-19.

6. Mae llawer o fusnesau, a fyddai fel arall yn economaidd hyfyw, yn wynebu cryn anawsterau i fasnachu ac mae mesurau cadw pellter cymdeithasol a orfodir gan y llywodraeth a'r lefelau is o adnoddau yn ei gwneud yn anodd i fusnesau barhau i fasnachu a chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Nod y Bil yw rhoi'r hyblygrwydd a'r amser ychwanegol sydd eu hangen ar fusnesau i barhau i fasnachu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

8. Mae'r Bil yn cynnwys tair prif set o fesurau i gyflawni ei ddiben:

i. gwneud y drefn ansolfedd yn fwy hyblyg (cyflwyno cyfnod moratoriwm – gweler p.), gan roi amser ychwanegol i gwmnïoedd ystyried opsiynau achub a diogelu cyflenwadau ar yr un pryd, er mwyn iddynt allu cael y cyfle gorau posib i oroesi;
ii. atal rhannau o gyfraith ansolfedd dros dro er mwyn helpu cyfarwyddwyr i barhau i fasnachu drwy'r argyfwng heb fygythiad atebolrwydd personol a diogelu cwmnïau rhag camau gweithredu ymosodol gan gredydwyr;
iii. rhoi hawddfreintiau dros dro i gwmnïoedd a chyrff eraill o ran gofynion ffeilio cwmnïau a gofynion ynglŷn â chyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd cyffredinol blynyddol.

*Moratoriwm*

9. Bydd y Bil yn cymhwyso darpariaethau'r moratoriwm at bob cwmni yn y DU, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gwmnïoedd, ond ni fydd darpariaethau'r moratoriwm yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithasau cofrestredig nac i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n sefydliadau corfforedig elusennol.

10. Mae'r Bil (yng nghymal 1) yn cyflwyno Rhan A1 (Moratoriwm) newydd i Ddeddf Ansolfedd 1986 (**Deddf 1986**), cyn Rhan 1 o'r Ddeddf honno, a fydd yn gymwys i bob cwmni. O dan amgylchiadau penodol, gall cwmni wneud cais am foratoriwm y bwriedir iddo roi amser ychwanegol i gwmni sydd mewn trafferthion ariannol er mwyn iddo ystyried opsiynau achub ac ailstrwythuro heb orfod wynebu camau gweithredu gan gredydwyr. Mae hwn yn foratoriwm 20 diwrnod busnes annibynnol, y gall y cwmni ei estyn am 20 diwrnod busnes arall. Gellir hefyd estyn cyfnod y moratoriwm gyda chaniatâd credydwr y cwmni neu ganiatâd y llys.

11. Yn ystod cyfnod y moratoriwm, bydd rhai buddiannau a chyfyngiadau yn gymwys. Er enghraifft, ni fydd modd cymryd na pharhau i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol yn erbyn y cwmni heb ganiatâd y llys. Mae nifer o gyfyngiadau, gan gynnwys y canlynol: gorfodi neu dalu dyledion penodol y mae cwmni yn cael gwyliau talu yn eu cylch yn ystod moratoriwm; gweithrediadau ansolfedd penodol ac mae'n rhaid i gyfarwyddwyr y cwmni hefyd hysbysu'r monitor cyn cymryd camau penodol mewn perthynas â gweithrediadau ansolfedd eraill; cael credyd; rhoi sicrwydd; ymrwymo i gontractau ar y farchnad; a gwaredu eiddo.

12. Bydd cwmni mewn moratoriwm yn parhau i fod o dan reolaeth ei gyfarwyddwyr, a bydd monitor (ymarferydd ansolfedd trwyddedig), sy'n swyddog llys, yn goruchwylio'r moratoriwm ac yn asesu'r sefyllfa. Os daw'n amlwg na ellir achub y cwmni, mae'n rhaid i'r monitor ddod â'r moratoriwm i ben a gall credydwyr barhau i orfodi eu dyledion. Hefyd, daw'r moratoriwm i ben ar unrhyw adeg y mae'r cwmni yn ymrwymo i gynllun trefniant neu weithdrefn ansolfedd berthnasol.

*Darpariaethau Presennol*

13. Fodd bynnag, mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ansolfedd presennol a nodir yn adrannau 39-50 o Ddeddf 1996 (**Deddf 1996**).

14. O dan Ddeddf 1996, cyn cymryd camau penodol mewn perthynas ag ansolfedd, mae'n rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru am y camau hynny. At hynny, cyn gynted â phosibl ar ôl i gamau penodol gael eu cymryd, mae angen hysbysu Gweinidogion Cymru hefyd. Unwaith y bydd camau penodol wedi'u cymryd, mae moratoriwm ar allu'r landlord cymdeithasol cofrestredig i waredu tir. Bydd y moratoriwm yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu. Gellir estyn y moratoriwm hwn gyda chytundeb pob credydwr sicredig. Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cydsyniad mewn perthynas â gwaredu tir.

15. Yn ystod cyfnod y moratoriwm, gall Gweinidogion Cymru wneud cynigion ynglŷn â pherchenogaeth y tir a ddelir gan y landlord cymdeithasol cofrestredig a'r ffordd y caiff ei reoli yn y dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod tir y landlord yn parhau i gael ei reoli'n briodol gan landlord cymdeithasol cofrestredig, a fydd, unwaith y byddant wedi cael cytundeb y credydwyr sicredig, yn gyfrwymol ar Weinidogion Cymru, y landlord, holl gredydwyr y landlord cymdeithasol cofrestredig ac unrhyw ddatodwr, derbynnydd gweinyddol, derbynnydd neu weinyddwr. Gall Gweinidogion Cymru benodi rheolwr dros dro, tra byddant yn aros am gytundeb ynglŷn ag unrhyw gynigion, a gallant benodi rheolwr i roi'r cyfryw gynigion ar waith unwaith y byddant wedi cael cytundeb yn eu cylch. At hynny, gall Gweinidogion Cymru roi'r cyfryw gymorth ariannol ag sy'n briodol yn eu barn hwy.

*Materion*

16. Felly, mae'n debygol y bydd gwrthdaro rhwng darpariaethau arfaethedig y Bil a'r trefniadau ansolfedd presennol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Bydd y moratoriwm newydd a phenodi monitor o dan ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn rhyngweithio â'r moratoriwm tai a phenodi rheolwr o dan Ddeddf 1996, a gwrthdaro â hwy o bosibl. Ceir darpariaethau hysbysu hefyd yn Neddf 1996 sy'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu bod gweithdrefnau ansolfedd penodol yn cael eu dilyn, neu y byddant yn cael eu dilyn, ac sy'n rhoi cychwyn ar y moratoriwm o dan Ddeddf 1996, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y broses hon mewn perthynas â moratoriwm a geir o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986.

17. Gan fod y darpariaethau newydd hyn yn gwrthdaro o bosibl â'r drefn bresennol yn Neddf 1996, ar 13 Mai, cytunodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar gyfarwyddiadau polisi i ofyn am ddarpariaethau i Weinidogion Cymru yn y Bil.

18. Y bwriadau polisi y cytunwyd arnynt oedd:

a. sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil ynglŷn â'r moratoriwm naill ai'n gweithredu mewn ffordd sy'n ategu'r darpariaethau ansolfedd presennol ar gyfer landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru neu y gellir eu datgymhwyso os tybir bod hynny'n briodol;
b. cadw pwerau/swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion o ansolfedd ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y'u nodwyd yn Neddf 1996, er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y drefn ansolfedd honno, gan gynnwys y prif ganlyniad sef diogelu stoc/asedau tai cymdeithasol ac, o ganlyniad i hyn, ddiogelu'r tenantiaid (y canlyniadau sy'n ymwneud â thai);
c. sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r moratoriwm yn gweithredu, hyd y gellir, mewn ffordd sy'n gyson â phob math (ffurf gyfreithiol) o landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru;
d. sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau negyddol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad yn eu cylch**

*Cwmnïau - Cymal 1 o'r Bil (adran A49 o Ddeddf Ansolfedd 1986) ac Atodlen 1 i'r Bil (paragraff 21 o Atodlen ZA1 i Ddeddf 1986)*

*Adran A49 o Ddeddf 1986*

19. O dan adran A49 o Ddeddf 1986, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu Rhan A1 (Moratoriwm) fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chwmni sy'n landlord cymdeithasol cofrestredig neu wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhyngweithio rhwng Adran A1 (Moratoriwm) ac unrhyw weithdrefn ansolfedd arall mewn perthynas â chwmni o'r fath. Gellir defnyddio'r pŵer hwn, yn benodol, i ddiwygio, diddymu, dirymu neu fel arall addasu unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy ddeddfiad. Mae “gweithdrefn ansolfedd” yn cynnwys y ddarpariaeth a nodir yn adrannau 39 i 50 o Ddeddf 1996. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru sicrhau y gall y Ddeddf 1996 bresennol a'r gweithdrefnau ansolfedd newydd arfaethedig weithio gyda'i gilydd.

20. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro rhwng y darpariaethau yn Neddf 1996 a'r weithdrefn o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 (yn ogystal â'r gweithdrefnau ansolfedd y mae Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 ei hun yn rhyngweithio â hwy). Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau/swyddogaethau presennol i ymdrin ag achosion o ansolfedd ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y'u nodwyd yn Neddf 1996, er mwyn ceisio sicrhau'r canlyniadau sy'n ymwneud â thai a nodir uchod.

*Paragraff 21 o Atodlen ZA1 o Ddeddf 1986*

21. Mae Atodlen 1 i'r Bilyn mewnosod Atodlen ZA1 yn Neddf 1986.Mae'r Atodlen hon yn cynnwys darpariaethau ar gyfer penderfynu a yw cwmni yn gymwys i gael moratoriwm o dan Ran A1 newydd (Moratoriwm) o Ddeddf 1986. O dan baragraff 21 o Atodlen ZA1 i Ddeddf 1986, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen ZA1 i ddarparu ar gyfer cymhwysedd neu anghymhwysedd landlord cymdeithasol cofrestredig at ddibenion y moratoriwm o dan Ran A1 o Ddeddf 1986.

22. Fel y nodir uchod, mae'n debygol y bydd gwrthdaro rhwng y darpariaethau yn Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 a'r trefniadau ansolfedd presennol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. O ystyried y materion hyn, bydd angen i Weinidogion Cymru allu tynnu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o fod yn gymwys i gael moratoriwm o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986, oni bai bod pwerau eraill i wneud rheoliadau a fyddai'n newid effaith Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn cael eu defnyddio yn lle hynny.

23. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru osgoi sefyllfa lle y gall landlord cymdeithasol cofrestredig gael moratoriwm o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 o dan amgylchiadau lle nad yw Deddf 1996 yn darparu ar gyfer camau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru i ddiogelu tai cymdeithasol o dan yr amgylchiadau hynny.Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau/swyddogaethau presennol i ymdrin ag achosion o ansolfedd ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y'u nodwyd yn Neddf 1996, er mwyn ceisio sicrhau'r canlyniadau sy'n ymwneud â thai a nodir uchod. Os bydd cymhwysedd wedi'i ddileu gan Weinidogion Cymru, caiff Gweinidogion Cymru ei adfer hefyd o dan y pŵer hwn.

24. Bydd y ddau bŵer hyn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (am eu bod yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth).

25. Fodd bynnag, bydd y ddau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am y chwe mis cyntaf ar ôl Cydsyniad Brenhinol er mwyn hwyluso rheoliadau brys os tybir eu bod yn angenrheidiol.

*<u>Cymdeithasau Cofrestredig – Atodlen 3: Moratoria ym Mhrydain Fawr:diwygiadau pellach i'r Bil (paragraffau 50 i 53)</u>*

26. Ni fydd y darpariaethau yn Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn gymwys i gymdeithasau cofrestredig o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (**Deddf 2014**).

27. Mae'r mwyafrif o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn gymdeithasau cofrestredig o dan Ddeddf 2014.

28. Mae'r Bil yn diwygio adran 118 o Ddeddf 2014, er mwyn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n caniatáu cymhwyso Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 at gymdeithasau cofrestredig sy'n

landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac sy'n caniatáu i'r newidiadau angenrheidiol gael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â thai er mwyn ystyried argaeledd y moratoriwm o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 a darrparu ar gyfer y rhyngweithio rhwng y moratoriwm o dan Ran A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 a'r gweithdrefnau ansolfedd eraill sydd ar gael i'r landlord cymdeithasol cofrestredig (gan gynnwys moratoriwm tai ar waredu tir o dan Ddeddf 1996).

29. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r moratoriwm yn gweithredu, hyd y gellir, mewn ffordd sy'n gyson â phob math (ffurf gyfreithiol) o landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y sector tai cymdeithasol rhwng pob math o endid cyfreithiol. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ganiatáu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithasau cofrestredig fanteisio ar rai o'r trefniadau yn Rhan A1 (Moratoriwm) newydd o Ddeddf 1986, os byddant yn tybio bod hyn yn briodol. At hynny, bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau/swyddogaethau presennol i ymdrin ag achosion o ansolfedd ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y'u nodwyd yn Neddf 1996, er mwyn ceisio sicrhau'r canlyniadau sy'n ymwneud â thai.

30. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y gellir gwneud rheoliadau yn gyflym, os tybir bod hynny'n briodol, i ddarparu ar gyfer y ffordd y dylai Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 fod yn gymwys i gymdeithasau cofrestredig sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sicrhau bod cysondeb yn y sector tai cymdeithasol rhwng pob math o endid cyfreithiol sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

*Sefydliadau Corfforedig Elusennol – Atodlen 3: Moratoria ym Mhrydain Fawr:diwygiadau pellach i'r Bil (paragraffau 43-45 a 49)*

31. Bydd y darpariaethau yn Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn gymwys yn gyffredinol i sefydliadau corfforedig elusennol yng Nghymru a Lloegr o fewn ystyr Rhan 11 o Ddeddf Elusennau 2011 (“**Deddf 2011**”) ond ni fydd Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn gymwys i sefydliadau corfforedig elusennol sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

32. Nid oes unrhyw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n sefydliadau corfforedig elusennol yng Nghymru ar hyn o bryd ond efallai y bydd rhai yn y dyfodol ac felly mae'r pŵer yn paratoi at y dyfodol.

33. Mae paragraff 45 o Atodlen 3 i'r Bil yn mewnosod adran 247A newydd yn Neddf Elusennau 2011 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, a wneir drwy offeryn statudol, sy'n darparu bod Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 yn gymwys (gyda'r cyfryw addasiadau ag y gellir eu pennu yn y rheoliadau) i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n sefydliadau corfforedig elusennol. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r rhyngweithio rhwng Adran A1

(Moratoriwm) fel y'i cymhwysir gan y rheoliadau ac unrhyw weithdrefn ansolfedd arall mewn perthynas â sefydliad corfforedig elusennol sy'n landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae "gweithdrefn ansolfedd" yn cynnwys y ddarpariaeth a nodir yn adrannau 39 i 50 o Ddeddf 1996.

34. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r moratoriwm yn gweithredu, hyd y gellir, mewn ffordd sy'n gyson â phob math (ffurf gyfreithiol) o landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y sector tai rhwng pob math o endid cyfreithiol. Bydd hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ganiatáu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n sefydliadau corfforedig elusennol fanteisio ar rai o'r trefniadau yn Rhan A1 (Moratoriwm) newydd o Ddeddf 1986, os tybir bod hynny'n briodol. At hynny, bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw eu pwerau/swyddogaethau presennol i ymdrin ag achosion o ansolfedd ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y'u nodwyd yn Neddf 1996, er mwyn ceisio sicrhau'r canlyniadau sy'n ymwneud â thai a nodir uchod.

35. Mae gofyniad o dan adran 247A(6) newydd o Ddeddf 2011 bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau neu gyrff personau ag sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 247A ond nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn cychwyn am y chwe mis cyntaf ar ôl i adran 42 o'r Bil ddod i rym.

36. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (am ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy is-ddeddfwriaeth). Fodd bynnag, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol am y chwe mis cyntaf ar ôl Cydsyniad Brenhinol er mwyn hwyluso rheoliadau brys os tybir eu bod yn angenrheidiol. Gwneir hyn fel y gellir gwneud rheoliadau'n gyflym er mwyn darparu ar gyfer y ffordd y dylai Rhan A1 (Moratoriwm) o Ddeddf 1986 fod yn gymwys i sefydliadau corfforedig elusennol sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sicrhau bod cysondeb yn y sector tai cymdeithasol rhwng pob math o endid cyfreithiol sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymal 42(2)(c) o'r Bil).

37. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â thai.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol**

38. Mae'r drefn ansolfedd yn y sector tai cymdeithasol yn gweithredu'n wahanol i'r ffordd y mae'n gweithredu i endidau mewn sectorau eraill. Ceir gweithdrefnau ansolfedd ychwanegol o dan Ddeddf 1996 i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd â dibenion/amcanion gwahanol (y prif rai yw diogelu stoc/asedau tai cymdeithasol) i'r gweithdrefnau ansolfedd arferol.

39. Nodir bwriad polisi Llywodraeth Cymru dros y cyfarwyddiadau drafftio i gynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru yn y Bil ym mharagraff 18 uchod.

40. Bwriedir i'r Bil helpu pob cwmni yn y DU i osgoi ansolfedd a'u helpu cymaint â phosibl i oroesi yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau tai (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) yn dod o dan gymhwysedd y Senedd. Mae bodolaeth gweithdrefnau ansolfedd presennol i landlord cymdeithasol cofrestredig yn Neddf 1996 yn golygu bod angen gallu lliniaru achosion posibl o wrthdaro ac felly ei bod yn briodol cynnwys pwerau priodol i Weinidogion Cymru ym Mil y DU.

**Goblygiadau ariannol**

41. Heblaw am y costau staffio sy'n gysylltiedig â pharatoi'r rheoliadau maes o law, ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau cyllidebol newydd.

**Casgliad**

42. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU am ei fod yn cynnig y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau i fod yn gymwys yng Nghymru a bydd yn caniatáu i'r darpariaethau fod yn gymwys lawer yn gynt na'r hyn y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru.

**Julie James AS**
**Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

**Mehefin 2020**

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
—
Welsh Parliament
Public Accounts Committee

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Sophie Howe**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

29 Mai 2020

**Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiadau Statudol**

Annwyl Adrian a Sophie,

Diolch unwaith eto ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Mai 2020. Roedd yn gyflwyniad ac yn fan cychwyn defnyddiol iawn i'r Senedd ystyried eich adroddiadau statudol pwysig.

Rydym yn cydnabod bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn sail i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru ac mor bwysig yw sicrhau y dylai'r holl waith craffu gan y Senedd gwmpasu popeth.

O'r herwydd, hoffem gymryd amser i fyfyrio ar sut y gall y Senedd gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol a byddwn yn disgwyl nes lansiad ffurfiol eich adroddiadau yn yr hydref cyn bwrw ymlaen â'n gwaith craffu. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb i'ch canfyddiadau ac yn ystyried unrhyw adborth gan randdeiliaid, a fydd yn llywio ein barn.

Er y gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus arwain y gwaith hwn, byddaf yn sicrhau bod holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Rydym am fod yn glir y bydd angen i'r gwaith craffu hwn gynnwys craffu ôl-ddeddfwriaethol ehangach ar y Ddeddf, a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, er bod y Ddeddf ar waith ers 5 mlynedd, ni chafwyd craffu ôl-ddeddfwriaethol ehangach hyd yma

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

a dim ond y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n craffu ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn flynyddol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori'r Ddeddf ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw rhai cyrff cyhoeddus yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Bydd ein hystyriaeth yn gwyntyllu sut y gallai'r Senedd ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad manwl o'r rhwystrau rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus, fel a ddisgrifir yn eich adroddiadau, a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hynny. Er enghraifft:

- Rôl Llywodraeth Cymru wrth gynnig arweiniad ar weithrediad y Ddeddf.
- Cylchoedd cyllido tymor byr, a sut mae'r rhain yn atal cynnydd.
- A oes gan y cyrff y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt ddigon o adnoddau i roi egwyddorion y Ddeddf ar waith yn ymarferol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu cerrig milltir clir i fesur cynnydd, ac yn ystyried a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol trwy Orchymyn i fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau sylweddol a wynebir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn sgil pandemig COVID-19. Rydym yn gweld fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn. Mewn sawl ffordd, mae'r pandemig wedi datblygu egwyddorion y Ddeddf trwy esgor ar fwy o weithio ystwyth a hyblyg, teithio llesol, cydweithio a newidiadau cadarnhaol eraill. Gobeithiwn na fydd y newidiadau cadarnhaol hyn yn cael eu colli gyda llacio cyfyngiadau symud COVID-19.

Nodwn y bydd angen ystyried pob agwedd ar fywyd cyhoeddus trwy ddrych COVID-19 wrth i gyrff cyhoeddus weithredu argymhellion eich adroddiadau. Bydd hyn yn rhan sylfaenol o'n gwaith yn yr hydref.

Rydym yn edrych ymlaen at drafod â chi yn nes ymlaen eleni wrth fwrw ymlaen â’n gwaith craffu ar ganfyddiadau eich adroddiadau.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA-EM-01622-20

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1SN

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1SN

29 May 2020

Annwyl David a Mick,

**Y Bil Masnach: Cydsyniad Deddfwriaethol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 07 Mai 2020 yn gofyn am ragor o wybodaeth yn sgil cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach. Rwy'n ddiolchgar i'ch dau bwyllgor am graffu ar y Bil a'r elfennau y ceisir cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer. Yn eich llythyr, rydych yn gofyn nifer o gwestiynau ac rwyf am ateb pob un yn ei dro.

**Rhan 1, Cymal 1: Yn ymwneud â'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA)**

*C1: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cynnwys mewn unrhyw restr ddiwygiedig yn Anecs 1 i Atodiad 1 y Deyrnas Unedig i'r GPA?*

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ddiweddaru ei hamserlen ar gyfer y GPA yn sgil ymuno ag ef. Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain y gwaith hwn a bu'n trafod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru am newidiadau posibl i'r cyrff cyhoeddus a restrir Anecs 1. Ein disgwyliadau ar hyn o bryd yw y bydd y newidiadau arfaethedig yn rhai technegol eu natur gan mwyaf, er enghraifft newid enwau'r cyrff a restrir i adlewyrchu eu teitlau cyfredol. Felly dyma lle mae ein gwaith yn canolbwyntio ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*C2: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ehangder y pŵer i wneud rheoliadau yng Nghymal 1, yn benodol o ran gallu Gweinidogion y DU a Chymru i wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu'r GPA fel y gwelant yn "briodol"?*

Nid ydym wedi cael sgwrs benodol gyda Gweinidogion y DU am hyd a lled y pwerau yng Nghymal 1 i wneud rheoliadau. Ond mae is-gymal (1) yn cyfyngu'r pŵer i'r dibenion penodol a restrir, hynny yw i drafod mynediad y DU i'r GPA a'i haelodaeth ohono. Rydym wedi cael trafodaethau da â Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU am y ddarpariaeth allai fod ei hangen o dan gymal 1 i roi'r GPA ar waith. Byddwn yn dal i drafod y mater hwn â Swyddfa'r Cabinet ac yn hysbysu'n pwyllgorau maes o law os bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi eu cydsyniad i unrhyw rai o reoliadau Llywodraeth y DU o dan gymal 1 mewn meysydd datganoledig.

*C3: O ystyried y ffaith ei bod yn ymddangos bod angen adolygu'r rhestr o gyrff cyhoeddus Cymru, a'r cyfeiriad at yr angen am ddiweddariad yn y Nodiadau Esboniadol, pam ydych chi'n ystyried mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer gwneud y rheoliadau hyn?*

Llywodraeth y DU benderfynodd yr y weithdrefn Seneddol a dilyn y penderfyniad hwnnw ydym ni. Esbonnir rhesymau Llywodraeth y DU am ei phenderfyniad yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig, sef yr angen am gyflymder a'r ffaith y bydd Senedd y DU yn ystyried telerau ymaelodi â'r GPA hefyd o dan weithdrefn Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.

Gan mai cytundeb rhyngwladol yw'r GPA, ni cheir defnyddio cymal 1 y Bil i newid unrhyw ran o'r cytundeb, gan gynnwys Anecs 1. Yr unig ffordd i ddiweddaru'r Anecs yw trwy ddilyn y broses a ddisgrifir yn Erthygl XIX y GPA. Gellir wedyn defnyddio pwerau cymal 1 i roi ymrwymiadau rhyngwladol y DU ar waith mewn cyfraith ddomestig. Er enghraifft, trwy ddiwygio deddfwriaeth ddomestig fel Rheoliadau Contractau Caffael 2015 i sicrhau bod y rhestr o awdurdodau contractio'r llywodraeth ganol y mae'r rheoliadau hyn yn eu cwmpasu yn gyson ag ymrwymiadau'r DU o dan y GPA. Gan na ellir defnyddio pwerau cymal 1 ond i roi ymrwymiadau ar waith sy'n deillio o gyfraith ryngwladol, yn ymarferol, ychydig iawn o ddisgresiwn mewn gwirionedd sydd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru.

C4: *Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi bod angen gwneud rheoliadau Cymal 1 yn gyflym, p'un a yw hynny, er enghraifft, mewn ymateb i fynediad y DU i'r GPA fel aelod annibynnol neu mewn ymateb i anghydfod â pharti GPA arall. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn awgrymu bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn rhoi cyfle i Weinidogion y DU a Chymru weithredu mor gyflym â hynny. Pa ystyriaeth a roddwyd i gymhwyso'r weithdrefn gwneud cadarnhaol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng Nghymal 1?*

Gan mai Llywodraeth y DU wnaeth y penderfyniad ynghylch y weithdrefn, ni allaf gynnig sylw ar y ffactorau y gwnaeth eu hystyried pan benderfynodd nad oedd angen dilyn y weithdrefn gadarnhaol i gymal 1.

Er bod Llywodraeth y DU wedi nodi cyflymder fel un o'r ffactorau i gefnogi'r weithdrefn negyddol yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw sefyllfa lle byddai'r angen i wneud rheoliadau a'u dwyn i rym mor gyflym yn cyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Rwy'n fodlon bod y weithdrefn negyddol yn taro'r cydbwysedd iawn yn yr achos hwn.

**Disgwyliadau Gweinidogion y DU**

C5: *A allwch chi egluro ar ba sail y gwnaed y cytundeb i ailddatgan yr ymrwymiadau hyn? Er enghraifft, a gadarnhawyd hyn mewn llythyrau rhwng Gweinidogion neu ai ymrwymiad llafar ydoedd?*

Cefais addewidion mewn llythyrau rhyngof a'r Gweinidog Polisi Masnach bryd hynny, Conor Burns AS y DU, y caiff yr holl ymrwymiadau a wnaed i Lywodraeth Cymru yn ystod taith rannol yr hen Fil Masnach eu hailddatgan yn ystod taith y Bil hwn. Rwyf hefyd wedi codi ac ysgrifennu at Greg Hands, AS, Gweinidog Polisi Masnach y DU i ofyn iddo gadarnhau y byddai'n anrhydeddu addewidion ei ragflaenydd ac y byddai'n ailadrodd yr ymrwymiadau hyn yn Nhŷ'r Cyffredin pan drafodir y Bil yno.

*C6: Pa gamau y byddwch yn eu cymryd pe na bai'r ymrwymiadau hyn yn cael eu hailddatgan?*

Mae argymhelliad Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod cydsyniad y Senedd i'r Bil yn amodol ar addewidion Llywodraeth y DU y bydd yn anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaeth yn Senedd y DU yn ystod taith rannol y Bil Masnach gwreiddiol. Os na chaiff yr ymrwymiadau hynny eu hailadrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, yna caiff yr argymhelliad ei ailystyried cyn gwahodd y Senedd i roi ei chydsyniad deddfwriaethol. Rwyf wedi egluro hyn i Greg Hands AS.

C7: *Mae'r Bil yn creu pwerau cydredol newydd y gellir eu harfer mewn meysydd datganoledig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau â Llywodraeth y DU am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, yn benodol y prawf a nodir ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006?*

Gallaf gadarnhau bod trafodaethau wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU am effaith y Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rwy'n rhagweld y caiff Gorchymyn Adran 109 ei ddwyn ymlaen cyn hir ac y bydd yn mynd i'r afael â phroblem y swyddogaethau cydredol rydych yn tynnu'n sylw ato.

**<u>Ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau Cymal 2</u>**

Q8: *A allwch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon â chyfnod o bum mlynedd y gellir defnyddio'r pwerau hyn?*

Byddwch eisoes yn gwybod mai consyrn pennaf Llywodraeth Cymru yn wreiddiol wrth holi Llywodraeth y DU am y cymal machlud oedd sicrhau y byddai'n trafod â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, hynny cyn penderfynu a ddylid estyn hyd y cymal machlud a sut y dylid gwneud hynny,. Rwy'n fodlon â'r addewidion rydym wedi'u cael gan Lywodraeth y DU yn hynny o beth. O ystyried y nifer fawr o gytundebau masnach y bydd angen eu gwneud o bosibl o dan y ddarpariaeth hon, gall Llywodraeth Cymru werthfawrogi y bydd angen bod y pwerau hyn ar gael am gyfnod rhesymol o amser. Nid ydym yn ymwybodol ar hyn o bryd bod problem â'r cyfnod machlud o bum mlynedd.

C9: *Er ein bod yn nodi eich bod yn ceisio ymrwymiad gan Weinidogion y DU i ymgysylltu â Llywodraethau Datganoledig cyn estyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau Cymal 2 o dan y Bil, beth yw eich barn ar yr awgrym y dylai unrhyw estyniad i'r cyfnod o bum mlynedd hefyd fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Senedd Cymru, i'r graddau y mae hyn yn ymwneud â phwerau wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru?*

Mae cwmpas y pŵer yng nghymal 2, gan gynnwys gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i estyn y ddarpariaeth machlud, wedi'i gynnwys fel un o ddarpariaethau'r Bil y ceisir cydsyniad y Senedd ar ei gyfer yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 2 Ebrill 2020.

Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymrwymiadau Llywodraeth y DU i ymdrin â'r weithrediaeth yn hytrach na'r ddeddfwrfa yn briodol yn yr achos hwn, o gofio bod y mater yn ymwneud yn benodol ag arfer swyddogaeth a roddir i'r weithrediaeth o dan amgylchiadau penodol iawn.

Datblygodd Llywodraethau Cymru a'r Alban set gyffredin o ddiwygiadau i'r Bil ym mis Ionawr 2018 oedd yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban ar estyn hyd y cymal machlud a sut i wneud hynny. Er na chafodd y diwygiadau hynny eu derbyn, llwyddwyd i gael addewid gan Lywodraeth y DU ar lawr Tŷ'r Cyffredin y byddai'n trafod â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn estyn y cyfnod y ceid gwneud rheoliadau cymal 2 ynddo yn ystod taith rannol y Bil Masnach gwreiddiol yn ystod sesiwn Seneddol 2017-19 y DU.

Cyn belled â bod yr ymrwymiadau hynny'n cael eu hailddatgan yn ystod taith y Bil cyfredol, mae Llywodraeth Cymru wedi argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r ddarpariaeth yn y Bil.

C10: *Beth yw eich barn am y pŵer yng Nghymal 2(6)(a) sy'n galluogi Gweinidogion y DU i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 trwy reoliadau? Pam ydych chi'n ystyried bod hwn yn bŵer priodol? A ydych wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y pŵer hwn?*

Rwy'n fodlon â'r pŵer yng nghymal 2(6)(a) ac nid wyf wedi holi Llywodraeth y DU am y cymal penodol hwn. Er nad oes unrhyw beth i rwystro Gweinidog y Goron rhag diwygio Deddf Llywodraeth Cymru (DLlC) 2006, mae cymal 2(6)(a) yn cyfyngu unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, i'r graddau bod darpariaeth yn bodloni'r diffiniad a geir yn adran 6(7) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 o gyfraith yr UE a ddargedwir. Ychydig iawn o ddarpariaethau yn DLlC all ddod o dan gwmpas y diffiniad hwn ac nid yw Llywodraeth y DU wedi dangos ei bod am arfer pwerau cymal 2 i wneud diwygiadau o'r fath.

Ar sail hynny, nid wyf o'r farn bod angen eithrio DLlC o'r categori o ddeddfwriaeth sylfaenol y gall Gweinidog y Goron ei ddiwygio o dan gymal 2(6)(a).

Gan obeithio bod fy atebion i'ch cwestiynau'n foddhaol.

Yn gywir,



**Eluned Morgan MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

# Eitem 12



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon